## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD CBAC

### CYFLWYNIAD

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am y ffyrdd y mae CBAC yn defnyddio eich data personol.

Mae CBAC yn defnyddio data personol am nifer o resymau gwahanol. Felly, mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn wedi'i rannu'n wahanol adrannau, er mwyn ei gwneud yn hawdd i chi ddod o hyd i'r wybodaeth sy'n berthnasol i chi.

- Mae Rhan 1 o'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn nodi gwybodaeth gyffredinol am breifatrwydd a fydd yn berthnasol i unrhyw un y mae CBAC yn prosesu ei ddata personol.
- Mae Rhan 2 o'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn nodi gwybodaeth am breifatrwydd i unigolion sy'n cael eu cofrestru ar gyfer cymwysterau CBAC (‘Ymgeiswyr’).
- Mae Rhan 3 o'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn nodi gwybodaeth am breifatrwydd i arholwyr a chymedrolwyr CBAC (‘Penodedigion’)
- Mae Rhan 4 o'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn nodi gwybodaeth am breifatrwydd i athrawon.
- Mae Rhan 5 o'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn nodi gwybodaeth am breifatrwydd i swyddogion arholiadau.
- Mae Rhan 6 o'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn nodi gwybodaeth am breifatrwydd i unigolion sy'n dod i unrhyw un o ddigwyddiadau DPP CBAC.
- Mae Rhan 7 o'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn nodi gwybodaeth i unigolion sy'n tanysgrifio i gyhoeddiadau CBAC.
- Mae Rhan 8 o'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn nodi gwybodaeth am breifatrwydd i gyflenwyr a chontractwyr CBAC.
- Mae Rhan 9 o'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn nodi gwybodaeth am breifatrwydd i unigolion sy'n gwneud ymholiad neu gŵyn.
- Mae Rhan 10 o'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn nodi gwybodaeth am breifatrwydd i unigolion sy'n ymweld ag unrhyw un o safleoedd CBAC.
- Mae Rhan 11 o'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn nodi gwybodaeth am breifatrwydd i ymgeiswyr am swyddi.
- Mae Rhan 12 o'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn nodi gwybodaeth am breifatrwydd i unigolion sy'n dod i ddigwyddiadau marchnata CBAC, gan gynnwys y Wobr Delwedd Symudol a'r Gwobrau Arloesedd.

Bydd Rhannau 2 i 12 o'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi'r wybodaeth ganlynol i chi ynglŷn â'r gweithgareddau prosesu gwahanol rydym yn ymgymryd â nhw:

- Pam mae angen i ni brosesu eich data personol;
- Pa ddata personol rydym yn eu prosesu amdanoch chi;
- Ffynhonnell y data hynny;
- Pam rydym yn gallu prosesu eich data personol;
- Am faint o amser y byddwn yn storio eich data personol;
- Pryd a pham y gallwn rannu eich data personol â sefydliadau neu unigolion eraill;
- P'un a ydym yn trosglwyddo eich data personol i wlad arall ac os felly, sut rydym yn sicrhau eu bod yn cael eu diogelu;
- Gwybodaeth am unrhyw benderfyniadau awtomataidd neu broffilio a wneir gennym.

## RHAN 1 - GWYBODAETH GYFFREDINOL

### GWYBODAETH AM CBAC

Mae CBAC yn elusen gofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant. Ni yw darparwr cymwysterau dwyieithog mwyaf Cymru (cyffredinol a galwedigaethol). Rydym hefyd yn un o'r darparwyr cymwysterau mwyaf blaenllaw yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, lle rydym yn cynnig cymwysterau o dan y brand ‘Eduqas’.

Mae CBAC yn cael ei gydnabod fel darparwr cymwysterau a'i reoleiddio gan Ofqual yn Lloegr, Cymwysterau Cymru yng Nghymru a'r Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu (‘CCEA’) yng Ngogledd Iwerddon (y ‘Rheoleiddwyr’). Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni weithredu yn unol â'r gwahanol reolau a pholisïau a bennir gan y Rheoleiddwyr. Rydym yn cyfeirio at y rheolau a'r polisïau hynny yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn fel y ‘Rheolau Rheoleiddiol’.

Mae CBAC yn aelod o'r Cyd-gyngor Cymwysterau (‘CGC’). Mae CGC yn gwmni nid er elw yn gyfyngedig drwy warant sy'n cynrychioli'r wyth darparwr cymwysterau mwyaf yn y DU. Ymhlith pethau eraill, mae CGC yn creu trefniadau a pholisïau gweinyddol cyffredin ar gyfer arholiadau ac asesiadau sy'n cael eu dilyn gan ei aelodau. Rydym yn cyfeirio at y trefniadau a'r polisïau hynny yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn fel y ‘Polisïau CGC’.

### CYFRAITH DIOGELU DATA YN Y DU

Mae cyfraith diogelu data yn y DU yn cael ei llywodraethu gan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (‘GDPR y DU’) a Deddf Diogelu Data 2018 yn bennaf.

Mae rhai defnyddiau o ddata personol hefyd yn cael eu llywodraethu gan Reoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig 1993. Mae'r rheoliadau yn amlinellu cyfreithiau sy'n ymwneud â phreifatrwydd cyfathrebiadau electronig, gan gynnwys marchnata electronig uniongyrchol a chwcis.

## STATWS CBAC O DAN GYFRAITH DIOGELU DATA

O dan GDPR y DU, gelwir sefydliadau sy'n rheoli p'un a gaiff eich data personol eu prosesu, pam a sut yn 'rheolyddion'. Mae'r mwyafrif o'r rhwymedigaethau a nodwyd yn GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018 yn gymwys i reolyddion data.

CBAC yw'r rheolydd data ar gyfer y data personol rydym yn eu prosesu.

Mae GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018 hefyd yn gymwys i 'proseswyr'. Yn gyffredinol, bydd sefydliad sy'n prosesu data personol yn gweithredu fel prosesydd pan fo'n prosesu'r data personol hynny ar ran sefydliad arall ac yn unol â'i gyfarwyddiadau.

Mae CBAC yn defnyddio proseswyr mewn nifer o senarios (er enghraifft, bydd cwmnïau sy'n darparu gwasanaethau TG i ni fel arfer yn gweithredu fel ein prosesydd). Pan fydd CBAC yn defnyddio prosesydd, mae'n ofynnol i ni sicrhau bod y prosesydd yn gallu gweithredu yn unol â GDPR y DU (gan gynnwys cadw data personol yn ddiogel) ac ymrwymo i gontract ysgrifenedig â'r prosesydd sy'n nodi'r telerau y caniateir iddo brosesu data personol yn unol â nhw ar ein rhan.

## SUT RYDYM YN SICRHAU EIN BOD YN PROSESU DATA YN GYFREITHLON

O dan GDPR y DU, mae'n rhaid bod gan reolyddion sail gyfreithlon (neu seiliau cyfreithlon) dros brosesu data personol. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i unrhyw weithgarwch prosesu gael ei awdurdodi o dan un neu fwy o'r chwe sail gyfreithlon dros brosesu a nodir yn Erthygl 6 o GDPR y DU.

Y seiliau cyfreithlon yw:

- **Cydsyniad:** mae'r unigolyn dan sylw wedi rhoi cydsyniad pendant i'w data personol gael eu prosesu at ddiben penodol.

- **Contract**: mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer contract y mae'r rheolydd wedi ymrwymo iddo â'r unigolyn, neu am fod yr unigolyn perthnasol wedi gofyn i'r rheolydd gymryd camau penodol cyn ymrwymo i gontract.

- **Rhwymedigaeth gyfreithiol:** mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn galluogi'r rheolydd i gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan gyfraith y DU (heb gynnwys rhwymedigaethau contractiol).

- **Buddiannau allweddol i fywyd:** mae prosesu yn angenrheidiol i ddiogelu bywyd rhywun.

- **Tasg gyhoeddus:** mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn i'r rheolydd gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu i gyflawni ei swyddogaethau swyddogol, ac mae i'r dasg neu'r swyddogaeth sail glir yng nghyfraith y DU.

- **Buddiannau dilys:** mae prosesu yn angenrheidiol at ddibenion buddiannau dilys y rheolydd neu fuddiannau dilys trydydd parti, oni bai bod rheswm da dros ddiogelu data personol yr unigolyn perthnasol sy'n drech na'r buddiannau dilys hynny.

Pan fyddwn yn prosesu data personol mae'n ofynnol i ni ddewis y sail gyfreithlon sydd fwyaf priodol i'r gweithgarwch prosesu dan sylw. Fodd bynnag, weithiau yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn, rydym yn cyfeirio at ddibyniaeth CBAC ar nifer o seiliau cyfreithlon mewn cysylltiad â gweithgarwch prosesu. Pan ddigwydd hyn, y rheswm yw

bod y diben rydym yn prosesu data personol mewn cysylltiad ag ef yn ei gwneud yn ofynnol i ni ymgymryd â nifer o weithgareddau prosesu gwahanol, y mae i bob un ohonynt sail gyfreithlon wahanol o bosibl. Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch ynghylch pryd y bydd unrhyw un o'r seiliau cyfreithlon gwahanol yn gymwys, cysylltwch â ni.

## DATA CATEGORI ARBENNIG

Mae GDPR y DU yn diffinio data categori arbennig fel:

- data personol sy'n datgelu tarddiad hil neu ethnig;
- data personol sy'n datgelu safbwyntiau gwleidyddol;
- data personol sy'n datgelu credoau crefyddol neu athronyddol;
- data personol sy'n datgelu aelodaeth o undeb llafur;
- data genetig;
- data biometrig (os ydynt yn cael eu defnyddio at ddibenion adnabod);
- data sy'n ymwneud ag iechyd;
- data sy'n ymwneud â bywyd rhywiol person;
- data sy'n ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol person.

Pan fydd rheolydd yn prosesu data categori arbennig, mae'n rhaid bod sail gyfreithlon dros brosesu ac mae'n rhaid bodloni amod categori arbennig i'w prosesu. Mae deg amod ar gyfer data categori arbennig, a nodir yn Erthygl 9 o GDPR y DU. Mae pump o'r amodau yn ei gwneud yn ofynnol i reolyddion fodloni amodau a mesurau diogelu ychwanegol a nodir yn Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018.

Mae rheolau gwahanol yn gymwys i brosesu data personol sy'n ymwneud ag euogfarnau troseddol neu droseddau.

## EICH HAWLIAU DIOGELU DATA

O dan gyfraith diogelu data, mae gan destunau data (h.y. unigolion byw sy'n cael eu hadnabod neu y gellir eu hadnabod o wybodaeth) nifer o hawliau gwahanol. Nodir manylion cryno am yr hawliau hyn isod. Bydd p'un a oes hawl benodol yn gymwys i'n defnydd o'ch data personol yn dibynnu weithiau ar y rheswm pam mae CBAC yn prosesu eich data personol.

Yr hawliau sydd ar gael i destunau data o dan GDPR y DU yw:

### Yr hawl i gael mynediad at eich data personol

Mae hyn yn golygu'r hawl i gael cadarnhad ynghylch a ydym yn prosesu unrhyw ddata personol gennych ac, os ydym yn gwneud hynny, yr hawl i gael gwybodaeth benodol am brosesu o'r fath a chael copi o'r data personol dan sylw. Mae eithriadau penodol yn gymwys i'r hawl hon, sy'n golygu na fydd yn ofynnol bob amser i CBAC roi mynediad i chi at y wybodaeth bersonol rydym yn eu dal amdanoch.

**Hawl i gywiro data personol**

Mae gan berson yr hawl i gael cywiro neu wneud yn gyflawn unrhyw gamgymeriadau yn y data personol rydym yn eu dal amdanoch.

**Hawl i gael dileu eich data personol**

Dyma hawl i ofyn i ni ddileu data personol rydym yn eu dal amdanoch chi. Dim ond o dan amgylchiadau penodol y bydd yn gymwys.

**Hawl i gyfyngu ar brosesu**

Dyma hawl i ofyn i ni gyfyngu ar brosesu data wrth ddefnyddio eich data personol. Dim ond o dan amgylchiadau penodol y bydd yn gymwys.

**Hawl i gludadwyedd data**

Dyma hawl i ofyn i ni ddarparu'r data personol rydym yn eu dal amdanoch chi mewn fformat a ddefnyddir yn gyffredin ac sy'n ddarllenadwy gan beiriant (neu drosglwyddo'r wybodaeth honno i sefydliad arall). Dim ond o dan amgylchiadau penodol y bydd yn gymwys.

**Hawl i wrthwynebu**

Dyma hawl i wrthwynebu prosesu eich data personol gennym. Dim ond o dan amgylchiadau penodol y bydd yn gymwys. Os bydd gennych yr hawl hon, mae'n rhaid i ni roi'r gorau i brosesu eich data personol. Un o'r sefyllfaoedd lle mae'r hawl hon yn gymwys yw os ydym yn prosesu eich data personol at ddibenion marchnata uniongyrchol.

**Sut i arfer eich hawliau diogelu data**

Os hoffech arfer unrhyw un o'ch hawliau fel testun data, anfonwch e-bost atom yn swyddog.diogelu.data@cbac.co.uk .

Ni chaniateir i ni godi tâl arnoch am arfer eich hawliau fel testun data, oni bai bod cais yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol. Yn gyffredinol mae'n ofynnol i ni ymateb i unrhyw gais gennych o fewn mis.

Ceir rhagor o wybodaeth am eich hawliau o dan gyfraith diogelu data ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth (gweler Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth).

**RHANNU EICH DATA PERSONOL AG ERAILL**

Weithiau, bydd angen i ni rannu eich data personol â sefydliadau eraill. Pan fyddwn yn gwneud hynny, bydd y sefydliad rydym yn rhannu eich data personol ag ef naill ai'n gweithredu fel rheolydd yn ei rinwedd ei hun neu fel ein prosesydd ni.

Os byddwn yn rhannu eich data personol â rheolydd arall, bydd angen sail gyfreithlon i ni wneud hynny. Yn aml, y sail fydd bod rhwymedigaeth arnom o dan gyfraith y DU (megis o dan y Rheolau Rheoleiddiol) i rannu'r data personol dan sylw. Efallai y bydd angen i ni rannu data personol â sefydliadau eraill hefyd er mwyn hyrwyddo ein buddiannau dilys ni neu eu buddiannau dilys nhw.

## SUT RYDYM YN CADW EICH DATA PERSONOL YN DDIOGEL?

Rydym yn cadw data personol yn gyfrinachol o fewn isadeiledd diogel a warchodir gan lawer o waliau tân a mesurau technegol a sefydliadol eraill. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod diogelwch ein systemau yn gyfredol.

Dim ond y rhai sydd ag angen busnes i weld eich data personol fydd yn cael mynediad iddynt. Dim ond yn unol â'n cyfarwyddiadau ni y byddant yn gallu eu gweld, ac maent o dan ddyletswydd cyfrinachedd. Mae'n rhaid bod unrhyw drydydd parti rydym yn gweithio ag ef wedi rhoi mesurau diogelwch ar waith i brosesu eich data personol. Mae gennym weithdrefnau ar waith i ymdrin ag unrhyw achos a amheuir o dor diogelwch data personol. Byddwn yn eich hysbysu chi a Chomisiynydd Gwybodaeth y DU am achos o dor diogelwch data pan fydd yn ofynnol i ni wneud hynny.

## PLANT

Mae gan CBAC berthynas uniongyrchol â chanolfannau, sy'n gwneud cais am gymeradwyaeth i gyflwyno cymwysterau CBAC ac Eduqas. Unwaith y caiff ei chymeradwyo, gall y Ganolfan gofrestru dysgwyr ar gyfer cymwysterau.

Mae rhai elfennau o'r wybodaeth yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn wedi'u cyfeirio at unigolion a all fod o dan 18 oed sy'n sefyll ein cymwysterau o bosibl. (er enghraifft, Ymgeiswyr). Rydym wedi ceisio sicrhau y bydd y wybodaeth yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn glir ac yn ddealladwy i'r holl ddarllenwyr, yn enwedig unigolion yn y grŵp oedran 14 i 18 oed. Fodd bynnag, mae croeso i chi gysylltu â ni os bydd angen eglurder ynglŷn ag unrhyw wybodaeth a nodir yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Os ydych o dan 13 oed, rydym yn tybio, at ddiben yr hysbysiad preifatrwydd hwn a chyfraith diogelu data yn fwy cyffredinol, y byddwch yn cael eich cynrychioli gan eich rhieni, a fydd yn gweithredu ar eich rhan wrth arfer eich hawliau diogelu data. Os ydych yn 13 oed neu'n hŷn, bydd yn ofynnol i ni gael eich cydsyniad o dan gyfraith diogelu data.

## Y DECHNOLEG A DDEFNYDDIWN AR EIN GWEFANNAU

Os byddwch yn mynd i unrhyw un o'n gwefannau, byddwn yn defnyddio technoleg amrywiol i gasglu gwybodaeth am eich ymweliad. Byddwn hefyd yn defnyddio adnoddau trydydd parti amrywiol ar ein gwefannau.

### Ein defnydd o gwcis

Rydym yn defnyddio cwcis i gasglu gwybodaeth amdanoch chi er mwyn i ni allu gwahaniaethu rhyngoch chi a defnyddwyr eraill. Mae rhai o'r cwcis a ddefnyddiwn yn hanfodol at ddibenion gweithredu ein gwefannau. Mae eraill yn ein helpu i sicrhau eich bod yn cael profiad da fel defnyddiwr ac i wella ein gwefannau o bryd i'w gilydd.

Pan fyddwn yn defnyddio cwcis nad ydynt yn hanfodol ar ein gwefannau, mae Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig 1993 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gael eich cydsyniad cyn ein bod yn gosod unrhyw gwcis o'r fath ar eich cyfrifiadur neu eich dyfais. Rydym yn defnyddio adnoddau ar ein gwefan i gael cydsyniad o'r fath gennych. Mae rhagor o wybodaeth am y cwcis a ddefnyddiwn ar ein gwefannau a sut y gallwch benderfynu pa gwcis i gytuno iddynt yn ein Polisïau ynglŷn â Chwcis (y gellir eu gweld ar ein gwefannau).

**Data dansoddeg ac adnoddau gwefannau**

Rydym yn defnyddio adnoddau ar-lein i gasglu gwybodaeth oddi wrthych. Er enghraifft:

- Mae Google Analytics yn gwella ein hymgyrchoedd marchnata, ein strategaethau a chynnwys ein gwefannau.
- Mae adnoddau trydydd parti yn sicrhau bod ein gwefan yn cael ei diweddaru a'i bod yn berthnasol i chi.
- Rydym yn defnyddio cwcis i wella profiad defnyddwyr, a dadansoddi traffig i'r wefan. Am y rhesymau hyn, efallai y byddwn yn rhannu eich defnydd o'r wefan â'n partneriaid dadansoddeg.

Mae ein baner cwcis yn caniatáu i chi ddewis derbyn neu wrthod y gwahanol fathau o gwcis a gyflwynwn o ran Cwbl Angenrheidiol, Perfformiad, Gweithredol a Thargedu. Edrychwch ar ein Polisi ynglŷn â Chwcis am restr ddynamig o'r cwcis a gyflwynwn a gwybodaeth arall. Os byddwch yn dymuno diweddaru eich dewisiadau neu datdanysgrifio i'n cyfathrebiadau e-bost ar unrhyw adeg gallwch wneud hynny drwy'r ddolen ar waelod ein negeseuon e-bost.

**Diogelwch gwefannau**

Mae CBAC yn defnyddio sawl math gwahanol o dechnoleg i ddiogelu ei wefannau a'i systemau gwe. Wrth wneud hyn, caiff rhywfaint o ddata ei gasglu:

- Eich cyfeiriad IP,
- Manylion am eich cyfrifiadur a'ch porwr (asiant defnyddiwr)
- Y tudalennau rydych yn mynd iddynt a'r adeg o'r dydd
- Data ymholiadau chwilio

Defnyddir y wybodaeth hon i ganfod achosion amheus, maleisus neu anawdurdodedig o geisio cael mynediad.

Hefyd, pan fydd gan ddefnyddwyr enwau defnyddwyr unigol a chyfrineiriau i fewngofnodi (gwefan ddiogel a gwefan Penodedigion), cofnodir hefyd pa ddefnyddiwr sydd wedi mewngofnodi.

Mae CBAC yn defnyddio dadansoddeg ymddygiadol i ganfod patrymau annormal o weithgarwch ar ei systemau a gall atal mynediad heb rybudd os canfyddir gweithgarwch amheus.

**Sut rydym yn sicrhau ein bod yn prosesu data yn gyfreithlon**

Pan fyddwn yn casglu data personol gan ymwelwyr â'n gwefannau i'r cyhoedd, y seiliau cyfreithlon rydym yn dibynnu arnynt yw naill ai:

- Eich cydsyniad (er enghraifft, pan fydd angen i ni gael eich cydsyniad i ddefnyddio cwcis penodol); neu
- y mae'r defnydd o'ch data personol yn angenrheidiol at ddibenion ein buddiannau dilys (h.y. i gynnal, rhedeg a gwella ein gwefannau).

**Cysylltau â gwefannau eraill**

Weithiau bydd ein gwefannau yn cynnwys cysylltau â gwefannau sefydliadau eraill. Os cliciwch ar gyswllt â gwefan arall, byddwch yn gadael ein gwefan ac yn symud i wefan y trydydd parti perthnasol. Yna, bydd y defnydd o'ch data personol yn cael ei lywodraethu gan yr hysbysiad preifatrwydd sy'n gymwys i'r wefan dan sylw. Byddem yn eich annog i ddarllen yr hysbysiad preifatrwydd er mwyn i chi ddeall sut a pham y caiff eich data personol eu defnyddio.

**NEWIDIADAU I'R HYSBYSIAD PREIFATRWYDD HWN**

Rydym yn adolygu ac yn diweddaru ein hysbysiad preifatrwydd o bryd i'w gilydd. Ceir tabl isod sy'n cofnodi'r newidiadau a wnaed gennym i'n hysbysiad preifatrwydd ac sy'n nodi manylion cryno am y newidiadau a wnaed gennym.

| **COFNOD O NEWIDIADAU I'N HYSBYSIAD PREIFATRWYDD** | |
|---|---|
| **Y dyddiad y gwnaed y newid** | **Manylion y newid** |
| 22 Chwefror 2023 | Hysbysiad Preifatrwydd newydd wedi'i ddrafftio i'w gwneud yn haws i ddarllenwyr gwahanol ei ddeall. |

**EIN MANYLION CYSWLLT**

Os hoffech gysylltu â ni, gallwch wneud hynny dros y ffôn, drwy e-bost neu drwy'r post. Nodir ein manylion cyswllt isod:

Cyfeiriad post: CBAC, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd, CF5 2YX

Rhif ffôn: 029 2026 5000

Cyfeiriad e-bost: swyddog.diogelu.data@cbac.co.uk

**MANYLION CYSWLLT Y SWYDDOG DIOGELU DATA**

Gallwch gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data yn swyddog.diogelu.data@cbac neu drwy ein cyfeiriad post (anfonwch eich llythyr at 'Swyddog Diogelu Data, CBAC').

**CWYNION**

Os bydd gennych unrhyw gwynion am y ffordd rydym yn defnyddio eich data personol, anfonwch e-bost atom yn cwynion@cbac.co.uk .

Fel arall, gallwch gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Ceir manylion ynglŷn â sut y gallwch gyflwyno cwyn ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth Gwneud cwyn | ICO

## RHAN 2 - GWYBODAETH AM BREIFATRWYDD I YMGEISWYR

**Cyn i chi ddarllen y wybodaeth a nodir yn y rhan hon o'n hysbysiad preifatrwydd, a wnewch chi sicrhau eich bod wedi darllen y wybodaeth a ddarperir yn Rhan 1 – Gwybodaeth Gyffredinol.**

### TROSOLWG

Er mwyn cyflwyno ei gymwysterau cyffredinol a galwedigaethol, mae angen i CBAC brosesu data personol ynglŷn ag Ymgeiswyr am nifer o resymau gwahanol. Felly, rydym wedi rhannu'r rhan hon o'n hysbysiad preifatrwydd yn is-adrannau. Mae pob is-adran yn ymdrin â rheswm craidd dros brosesu data personol Ymgeisydd ac yn esbonio:

- Pam mae angen i ni brosesu eich data personol;
- Pa ddata personol rydym yn eu prosesu amdanoch chi;
- Ffynhonnell y data hynny;
- Ein sail gyfreithlon dros brosesu;
- P'un a fyddwn yn rhannu eich data personol â sefydliadau neu unigolion eraill;
- P'un a fydd prosesu yn cynnwys unrhyw benderfyniadau awtomataidd neu broffilio.

Ceir hefyd is-adrannau ar wahân sy'n ymdrin â'r canlynol:

- P'un a fyddwn yn trosglwyddo eich data personol y tu allan i'r DU;
- Am faint o amser y byddwn yn cadw eich data personol; [a'ch
- Hawliau mewn perthynas â'ch data personol].

Noder:

- Pan gyfeiriwn at 'Canolfannau' yn y wybodaeth isod, rydym yn golygu ysgol neu goleg sy'n eich cofrestru i sefyll cymhwyster.
- Pan gyfeiriwn at 'Penodedigion' yn y wybodaeth isod, rydym yn golygu arholwyr a chymedrolwyr CBAC.

### EICH COFRESTRU AR GYFER ARHOLIADAU AC ASESIADAU A'U CYFLWYNO

**Pam y byddwn yn prosesu eich data personol?**

I gymryd y camau gweinyddol sy'n angenrheidiol i'ch cofrestru ar gyfer cymwysterau a chyflwyno arholiadau ac asesiadau. Mae hyn yn cynnwys:

- Cymryd y camau gweinyddol sy'n angenrheidiol i'ch cofrestru ar gyfer cymhwyster;
- Cynnal trefniadau gweinyddol sy'n gysylltiedig ag arholiadau ac asesiadau;

- Dosbarthu sgriptiau arholiadau i Ganolfannau;
- Storio a chludo sgriptiau arholiadau a recordiadau;
- Gohebu ac ymdrin â Chanolfannau a Phenodedigion mewn cysylltiad ag arholiadau ac asesiadau.

**Pa ddata personol y byddwn yn eu prosesu?**

Eich enw llawn, eich rhifau cyfeirnod fel ymgeisydd (UCI ac ULN), rhif ymgeisydd a gynhyrchir gan eich canolfan, eich dyddiad geni, eich rhywedd, y cymwysterau rydych wedi eich cofrestru i'w sefyll, a ydych yn sefyll y cymhwyster drwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg neu'r Wyddeleg ac ai ymgeisydd preifat ydych chi (‘Data Cofrestru’).

**Beth yw ffynhonnell y data?**

Bydd y rhan fwyaf o'r Data Cofrestru yn cael ei darparu gan Ganolfannau, gan gynnwys rhif yr ymgeisydd a gynhyrchir gan eich canolfan.

Fodd bynnag, byddwn hefyd yn creu/cynhyrchu rhai o'r Data Cofrestru (h.y. yr UCI a'r ULN).

**Beth yw ein sail gyfreithlon dros brosesu?**

Bydd ein sail gyfreithlon dros brosesu yn un o'r canlynol:

- Bod prosesu yn angenrheidiol er mwyn i ni gydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan gyfraith y DU (h.y. y Rheolau Rheoleiddiol);
- Bod prosesu yn angenrheidiol er mwyn ein galluogi i gyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd. Y dasg er budd y cyhoedd dan sylw yw darparu cymwysterau a gymeradwyir gan y Rheoleiddwyr; neu
- Bod prosesu yn angenrheidiol at ddibenion ein buddiannau dilys. Y buddiannau dilys hynny yw ymgymryd â thasgau sy'n angenrheidiol i gyflawni ein contract â'r Ganolfan sydd wedi eich cofrestru ar gyfer y cymhwyster/cymwysterau perthnasol.

**A fyddwn yn rhannu eich data personol ag unrhyw un arall?**

Er mwyn gwneud y trefniadau angenrheidiol i chi sefyll arholiadau a chymryd rhan mewn asesiadau allanol, bydd angen i ni rannu Data Cofrestru â'r Ganolfan sydd wedi eich cofrestru ar gyfer y cymhwyster/cymwysterau perthnasol. Ein sail gyfreithlon dros wneud hynny fydd ein buddiannau dilys i sicrhau y gall arholiadau ac asesiadau gael eu cynnal, wrth gydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan gyfraith y DU.

Mae'n ofynnol i ni hefyd rannu Data Cofrestru â'r Rheoleiddwyr, Adran Addysg y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Gogledd Iwerddon, CGC a'i aelodau. Ein sail gyfreithlon dros wneud hynny fydd ein galluogi i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan gyfraith y DU (h.y. o dan y Rheolau Rheoleiddiol).

**YMDRIN Â CHEISIADAU AM DREFNIADAU MYNEDIAD AC ADDASIADAU RHESYMOL**

**Pam y byddwn yn prosesu eich data personol?**

O dan y Rheolau Rheoleiddiol, mae'n ofynnol i ni sicrhau bod gennym drefniadau clir ar waith i wneud trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol i Ymgeiswyr ag anableddau. Gallai'r addasiadau rhesymol hynny gynnwys, er enghraifft, amser ychwanegol i gwblhau arholiad neu ddarparu ysgrifennydd.

Os bydd eich Canolfan o'r farn bod gennych yr hawl i gael addasiad rhesymol, mae'n rhaid i'ch Canolfan gyflwyno cais am addasiad rhesymol ar eich rhan. Os bydd Canolfan yn gwneud hynny, bydd angen i ni brosesu eich data personol er mwyn:

- gwerthuso'r cais;
- gwneud penderfyniad ynghylch a oes gennych yr hawl i'r addasiad(au) rhesymol y gofynnir amdano/amdanynt;
- hysbysu eich Canolfan p'un a yw'r cais wedi cael ei dderbyn ai peidio.

**Pa ddata personol y byddwn yn eu prosesu?**

Data Cofrestru ynghyd â gwybodaeth a geir yn y cais a wnaed gan eich Canolfan. Bydd angen i'r cais gynnwys gwybodaeth am eich anableddau neu eich anghenion dysgu ychwanegol.

**Beth yw ffynhonnell y data?**

- Ein cofnodion mewnol – byddwn eisoes yn dal Data Cofrestru;
- Canolfannau – bydd ceisiadau a wneir gan Ganolfannau yn ailadrodd rhai elfennau o'r Data Cofrestru a byddant hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r rheswm/rhesymau dros wneud cais am addasiadau rhesymol.

**Beth yw ein sail gyfreithlon dros brosesu?**

Fel y nodir uchod, o dan y Rheolau Rheoleiddiol, mae'n ofynnol i ni roi gweithdrefn glir ar waith i wneud addasiadau rhesymol. Hefyd, mae rhwymedigaethau cyffredinol arnom o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. O ganlyniad i hynny, ein sail gyfreithlon dros brosesu yw bod prosesu yn angenrheidiol er mwyn ein galluogi i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol o dan gyfraith y DU.

Hefyd, gan y gall prosesu data gynnwys defnyddio data categori arbennig, rydym hefyd yn dibynnu ar amod yn Neddf Diogelu Data 2018 sy'n caniatáu i ni ymgymryd â phrosesu lle y bo hynny'n angenrheidiol am resymau budd cyhoeddus sylweddol yn seiliedig ar gyfraith y DU. Yn yr achos hwn, y gyfraith berthnasol yw Deddf Cydraddoldeb 2010 neu unrhyw ddeddfwriaeth sy'n diwygio neu'n disodli'r Ddeddf.

**A fyddwn yn rhannu eich data personol ag unrhyw un arall?**

Mae'n ofynnol i Ganolfannau gyflwyno ceisiadau am addasiadau rhesymol i ni drwy borth ar-lein diogel a gynhelir gan Pearson (corff dyfarnu arall) ar ran CGC. Wrth ddarparu'r porth ar-lein, bydd Pearson yn gweithredu fel prosesydd CBAC.

Os bydd Canolfan yn cyflwyno cais i CBAC drwy'r porth ar-lein, dim ond CBAC fydd yn gallu gweld y cais a'r wybodaeth a geir ynddo (drwy fewngofnodi diogel CBAC). Fodd bynnag, os caiff addasiad rhesymol ei gymeradwyo, bydd y cyrff dyfarnu eraill

sy'n defnyddio'r porth yn gallu gweld yr addasiad rhesymol a ddyfernir, a hynny er mwyn ei gwneud yn hawdd i gyrff dyfarnu eraill gadarnhau a oes gan ymgeisydd yr hawl i addasiad rhesymol. Y sail gyfreithlon y mae CBAC yn dibynnu arni i rannu gwybodaeth ynglŷn ag addasiadau rhesymol â chyrff dyfarnu eraill yw ei bod yn ofynnol i CBAC wneud hynny er mwyn cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan gyfraith y DU (h.y. o dan y Rheolau Rheoleiddiol).

**A fydd unrhyw benderfyniadau awtomataidd yn cael eu gwneud?**

O dan GDPR y DU, dim ond os bydd amodau penodol a nodir yn GDPR y DU yn cael eu bodloni y bydd sefydliadau yn gallu gwneud penderfyniadau awtomataidd sy'n cael effeithiau cyfreithiol neu effeithiau sylweddol debyg ar unigolion.

Mae'r broses o ddyfarnu addasiadau rhesymol yn cynnwys elfen o brosesu awtomataidd. Rhoddir mwy o fanylion am y broses hon a'r porth ar-lein diogel yn nogfen CGC “Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol”.

Mae'r weithdrefn ar gyfer gwerthuso a phenderfynu a ddylid dyfarnu addasiad rhesymol fel a ganlyn:

- Cyn cyflwyno cais am addasiad rhesymol, mae'n ofynnol i Ganolfannau sicrhau bod tystiolaeth berthnasol ar gael ac yn cael ei chadw ar ffeil yn y Ganolfan. Ceir manylion am yr hyn a fydd yn gyfystyr â thystiolaeth berthnasol yn nogfen CGC “Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol”;

- Unwaith y bydd canolfan wedi'i bodloni bod tystiolaeth berthnasol ar gael ac wedi'i chadw ar ffeil, gellir prosesu cais am addasiad rhesymol neu rai addasiadau rhesymol drwy ddefnyddio'r system ar-lein ddiogel. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd algorithm y system yn gwneud penderfyniad awtomataidd (derbyn neu wrthod) a bydd y system awtomataidd yn hysbysu'r ganolfan yn unol â hynny. Os na fydd canolfan yn cytuno â phenderfyniad, neu os na ellir ymdrin â threfniadau penodol yn awtomatig, gall y ganolfan gyfeirio'r cais at y corff / cyrff dyfarnu perthnasol er mwyn i staff priodol yn y corff dyfarnu ei asesu.

Os caiff ei gymeradwyo, caniateir i'r ganolfan wneud yr addasiad(au) sydd ar gael i chi mewn arholiadau perthnasol.

**MARCIO ARHOLIADAU AC ASESIADAU SY'N CAEL EU CYMEDROLI GAN Y GANOLFAN**

**Pam y byddwn yn prosesu eich data personol?**

Er mwyn gallu dyfarnu graddau, bydd angen i ni farcio eich sgriptiau arholiad ac asesiadau allanol eraill. Bydd angen hefyd i ni fonitro'r broses o farcio arholiadau ac asesiadau o'r fath er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu marcio'n gyson a bod ein cynlluniau marcio a'n canllawiau yn cael eu dilyn.

O ran asesiadau di-arholiad, asesiadau dan reolaeth neu waith cwrs sy'n cael eu marcio gan Ganolfannau i ddechrau (‘Asesiadau sy'n cael eu Marcio gan Ganolfannau’) bydd angen i ni ymgymryd â phroses gymedroli er mwyn sicrhau bod Canolfannau yn marcio'n gyson i'r safon briodol.

**Pa ddata personol y byddwn yn eu prosesu?**

- Data Cofrestru;

- Eich sgriptiau arholiad ac, mewn perthynas â rhai cymwysterau, recordiadau o asesiadau llafar neu fyw;
- Asesiadau sy'n cael eu Marcio gan Ganolfannau;
- Marciau a Ddyfarnwyd i chi gan Benodedigion a Chanolfannau.

**Beth yw ffynhonnell y data?**

- Ein cofnodion mewnol – bydd CBAC eisoes yn dal Data Cofrestru;
- Penodedigion a Chanolfannau – marciau a ddyfarnwyd i chi;
- Canolfannau – sgriptiau arholiad, recordiadau ac Asesiadau sy'n cael eu Marcio gan Ganolfannau.

**Ar ba sail gyfreithlon y byddwn yn dibynnu?**

O dan y Rheolau Rheoleiddiol, mae'n ofynnol i ni wneud y canlynol:

- Trefnu i sgriptiau arholiad ac asesiadau allanol eraill gael eu marcio;
- Sicrhau bod y broses o farcio sgriptiau arholiad ac asesiadau allanol eraill yn cael ei monitro;
- Sicrhau bod y broses gymedroli yn cael ei chynnal mewn perthynas ag Asesiadau sy'n cael eu Marcio gan Ganolfannau.

Mae prosesau marcio, cymedroli a monitro o'r fath hefyd yn hanfodol er mwyn i ni allu cyflwyno cymwysterau wedi'u rheoleiddio. O ganlyniad, y seiliau cyfreithlon y byddwn yn dibynnu arnynt yw bod prosesu yn angenrheidiol er mwyn i ni gyflawni ein rhwymedigaethau o dan gyfraith y DU a bod prosesu yn angenrheidiol er mwyn i ni gyflawni tasg er budd y cyhoedd.

**A fyddwn yn rhannu eich data personol ag unrhyw un arall?**

Byddwn yn trefnu i sgriptiau arholiad ac asesiadau allanol eraill gael eu marcio gan Benodedigion. Byddwn hefyd yn trefnu i Uwch Benodedigion fonitro'r broses o farcio sgriptiau arholiad ac asesiadau allanol eraill. Byddwn hefyd yn trefnu i Asesiadau sy'n cael eu Marcio gan Ganolfannau gael eu cymedroli gan Benodedigion. Penodir Penodedigion gan CBAC o dan gontract a byddant yn prosesu eich data personol yn rhinwedd eu swydd fel ein proseswyr.

Bydd Penodedigion yn ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r gwaith marcio, monitro a chymedroli drwy ein llwyfan marcio ar-lein diogel. Darperir y llwyfan dan sylw gan ddarparwr gwasanaeth allanol a fydd yn gweithredu fel prosesydd data CBAC. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, caiff asesiadau di-arholiad eu marcio ar gopi caled neu eu huwchlwytho i'n llwyfan e-gyflwyno fel arfer.

O dan y Rheolau Rheoleiddiol, mae'n ofynnol i ni rannu manylion y marciau a ddyfarnwyd i Ymgeiswyr a phrosesau marcio, monitro a chymedroli arholiadau ac asesiadau â'r Rheoleiddwyr ac Adran Addysg y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Gogledd Iwerddon. Ein sail gyfreithlon dros wneud hynny fydd cydymffurfiaeth â'n rhwymedigaethau cyfreithiol o dan gyfraith y DU.

Rydym yn defnyddio rhaglenni meddalwedd awtomataidd i farcio cwestiynau amlddewis ar gyfer rhai o'r e-asesiadau. Ar gyfer y rhan fwyaf o asesiadau, hyd yn oed pan ddefnyddir proses farcio awtomataidd, bydd person yn penderfynu pa atebion sy'n dderbyniol cyn i'r rhaglen weithredu ei benderfyniad ar bob ateb mewn swmp.

**YMDRIN Â CHEISIADAU AM YSTYRIAETH ARBENNIG**

**Pam y byddwn yn prosesu eich data personol?**

Os effeithiwyd ar eich perfformiad yn ystod arholiad neu asesiad oherwydd salwch neu anaf dilys neu ddigwyddiad arall y tu allan i'ch rheolaeth (neu os byddwch yn colli arholiad am reswm dilys), efallai y bydd gennych yr hawl i gael ystyriaeth arbennig (a all gynnwys cynyddu'r marc a roddwyd i chi o ganran fach). Gall Canolfannau wneud ceisiadau am ystyriaeth arbennig ar eich rhan.

Os byddwn yn derbyn cais am ystyriaeth arbennig, bydd angen i ni brosesu eich data personol er mwyn:

- Ystyried y cais;
- Penderfynu a oes gennych yr hawl i gael ystyriaeth arbennig ai peidio;
- Hysbysu Canolfannau o'n penderfyniad.

**Pa ddata personol y byddwn yn eu prosesu?**

Data Cofrestru, manylion unrhyw farciau a ddyfarnwyd eisoes i chi, ynghyd â gwybodaeth am y rheswm dros wneud cais am ystyriaeth arbennig ar eich rhan (a all gynnwys data categori arbennig, megis gwybodaeth ynglŷn â'ch iechyd).

**Beth yw ffynhonnell y data?**

- CBAC – byddwn eisoes yn dal Data Cofrestru a manylion unrhyw farciau a ddyfarnwyd i chi;
- Canolfannau – bydd ceisiadau am ystyriaeth arbennig gan Ganolfannau yn ailadrodd rhai elfennau o'r Data Cofrestru ac yn nodi manylion ynglŷn â'r rhesymau pam mae cais am ystyriaeth arbennig yn cael ei wneud.

**Ar ba sail gyfreithlon y byddwn yn dibynnu?**

O dan y Rheolau Rheoleiddiol, mae'n ofynnol i ni roi trefniadau clir ar waith i roi ystyriaeth arbennig i Ymgeiswyr lle y bo'n briodol. Felly, ein sail gyfreithlon dros brosesu fydd cydymffurfiaeth â'n rhwymedigaethau cyfreithiol o dan gyfraith y DU.

Mewn perthynas â phrosesu unrhyw ddata categori arbennig, byddwn yn dibynnu ar amod yn Neddf Diogelu Data 2018 sy'n caniatáu i ni eu prosesu os yw'n angenrheidiol gwneud hynny am resymau o fudd cyhoeddus sylweddol yn seiliedig ar gyfraith y DU.

**A fyddwn yn rhannu eich data personol ag unrhyw un arall?**

Byddwn yn rhoi gwybod am ein penderfyniad ar gais am ystyriaeth arbennig i'r Ganolfan a wnaeth y cais.

**A fydd unrhyw benderfyniadau awtomataidd yn cael eu gwneud?**

Bydd y rhan fwyaf o geisiadau am ystyriaeth arbennig yn cael eu gwneud gan Ganolfannau drwy borth ar-lein diogel a ddarperir gan CBAC. Wrth wneud y cais bydd Canolfannau yn ateb ie neu nage i nifer o gwestiynau er mwyn cadarnhau a yw'r meini prawf ar gyfer ystyriaeth arbennig wedi cael eu bodloni. Caiff ceisiadau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf perthnasol eu gwrthod yn awtomatig gan y cymhwysiad meddalwedd a ddefnyddiwn i adolygu ceisiadau. Fodd bynnag, gall eich Canolfan ofyn i CBAC adolygu'r penderfyniad. Byddwn yn dyfarnu cynnydd canrannol safonol bach yn unol â chanllawiau CGC mewn perthynas â'r ceisiadau i'r ymgeiswyr hynny sydd wedi sefyll arholiad ac sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer ystyriaeth arbennig.

**TROSGLWYDDO CREDYDAU RHWNG CANOLFANNAU**

**Pam y byddwn yn prosesu eich data personol?**

- I sicrhau bod credydau y mae cyrff dyfarnu eraill wedi eu dyfarnu i chi yn cael eu hystyried os trosglwyddwch i un o gymwysterau CBAC;

- I sicrhau bod credydau y mae CBAC wedi eu dyfarnu i chi yn cael eu hystyried os trosglwyddwch i gymhwyster a ddarperir gan gorff dyfarnu gwahanol.

**Pa ddata personol y byddwn yn eu prosesu?**

Data Cofrestru ynghyd â manylion yr unedau a gwblhawyd gennych a'r credydau a ddyfarnwyd i chi mewn perthynas â'r cymwysterau sy'n cael eu trosglwyddo.

**Beth yw ffynhonnell y data?**

- Os byddwch yn trosglwyddo i gymhwyster a ddarperir gan gorff dyfarnu arall, byddwn eisoes wedi cael eich Data Cofrestru a manylion yr unedau rydych wedi eu sefyll a'r credydau a ddyfarnwyd i chi;

- Os byddwch yn trosglwyddo i un o gymwysterau CBAC, byddwn yn cael y Data Cofrestru a manylion yr unedau rydych wedi eu sefyll a'r credydau a ddyfarnwyd i chi gan gyrff dyfarnu eraill.

**Beth yw ein sail gyfreithlon dros brosesu?**

O dan y Rheolau Rheoleiddiol, mae'n ofynnol i ni wneud trefniadau i drosglwyddo credydau. Felly, y sail gyfreithlon rydym yn dibynnu arni yw bod prosesu yn angenrheidiol i'n galluogi i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan gyfraith y DU.

**A fyddwn yn rhannu eich data personol ag unrhyw un arall?**

Efallai y bydd angen i ni rannu eich data personol â chyrff dyfarnu eraill (h.y. er mwyn sicrhau bod credydau a ddyfarnwyd i chi yn cael eu hystyried). Unwaith eto, ein sail gyfreithlon dros wneud hynny fydd cydymffurfiaeth â'n rhwymedigaethau cyfreithiol o dan gyfraith y DU.

**DYFARNU GRADDAU A CHYHOEDDI CANLYNIADAU**

**Pam y byddwn yn prosesu eich data personol?**

Er mwyn i ni allu dyfarnu graddau i chi, bydd angen i ni brosesu eich data personol at ddibenion:

- Pennu ffiniau graddau;

- Cymhwyso ffiniau graddau at y marciau a ddyfarnwyd i chi.

Bydd angen hefyd i ni ddefnyddio eich data personol er mwyn i ni allu hysbysu Canolfannau a sefydliadau penodol eraill o'r graddau a ddyfarnwyd i chi.

**Pa ddata personol y byddwn yn eu prosesu?**

Er mwyn pennu ffiniau graddau rydym yn defnyddio amrywiol ddata, gan gynnwys marciau a ddyfarnwyd i Ymgeiswyr, samplau o waith Ymgeiswyr a sgriptiau Ymgeiswyr.

Er mwyn dyfarnu graddau i chi, byddwn yn defnyddio Data Cofrestru a'r marciau a ddyfarnwyd i chi gan Benodedigion a Chanolfannau.

Er mwyn hysbysu Canolfannau a sefydliadau eraill o'r graddau a ddyfarnwyd i chi, byddwn yn defnyddio rhai elfennau o'r Data Cofrestru i'ch adnabod chi a'ch graddau.

**Beth yw ffynhonnell y data?**

Ein cofnodion mewnol:

- Gan y byddwn eisoes yn dal Data Cofrestru a manylion y marciau a ddyfarnwyd i chi gan Benodedigion a Chanolfannau;

- Gan y byddwn yn cynhyrchu eich graddau.

**Ar ba sail gyfreithlon y byddwn yn dibynnu?**

O dan y Rheolau Rheoleiddiol, mae'n ofynnol i ni bennu ffiniau graddau, cymhwyso'r ffiniau graddau hynny at farciau Ymgeiswyr a chyhoeddi canlyniadau. Felly, y seiliau cyfreithlon y byddwn yn dibynnu arnynt i brosesu eich data personol fydd:

- Bod prosesu yn angenrheidiol er mwyn i ni gydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan gyfraith y DU;

- Bod prosesu yn angenrheidiol er mwyn i ni gyflawni tasg er budd y cyhoedd. Y dasg er budd y cyhoedd dan sylw yw darparu cymwysterau wedi'u rheoleiddio.

**A fyddwn yn rhannu eich data personol ag unrhyw un arall?**

Wrth bennu ffiniau graddau, byddwn yn gweithio gyda thîm o Uwch Benodedigion CBAC (a fydd yn gweithredu fel ein proseswyr data).

Byddwn yn darparu manylion y graddau a ddyfarnwyd i chi i'r canlynol:

- Eich Canolfan;

- CGC a'i aelodau;
- UCAS (os ydych wedi gwneud cais i brifysgol);
- Ein Rheoleiddwyr;
- Adran Addysg Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Gogledd Iwerddon.

Y sail gyfreithlon y byddwn yn dibynnu arni i wneud hynny fydd cydymffurfiaeth â'n rhwymedigaethau o dan gyfraith y DU (mewn perthynas â hysbysu Canolfannau o ganlyniadau) a buddiannau dilys (yn achos hysbysu CGC, ei aelodau ac UCAS o ganlyniadau).

Byddwn hefyd yn rhannu canlyniadau ar lefel ymgeisydd â CGC, aelodau CGC, a'n Rheoleiddwyr. Mae'n ofynnol i ni wneud hynny er mwyn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol fel darparwr rheoleiddiedig cymwysterau.

Rydym hefyd yn rhannu data ar lefel ymgeisydd ag Adran Addysg Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Gogledd Iwerddon. Mae'n ofynnol i ni wneud hynny er mwyn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol fel darparwr cymwysterau sydd wedi'i reoleiddio.

**CYHOEDDI TYSTYSGRIFAU A THYSTYSGRIFAU NEWYDD**

**Pam y byddwn yn prosesu eich data personol?**

I roi tystiolaeth ddogfennol i chi ynglŷn â'r cymwysterau a ddyfarnwyd i chi

**Pa ddata personol y byddwn yn eu prosesu?**

Data Cofrestru, eich graddau, eich manylion talu a manylion unrhyw ystyriaeth arbennig a ddyfarnwyd i chi.

**Beth yw ffynhonnell y data?**

Ein cofnodion mewnol.

**Ar ba sail gyfreithlon y byddwn yn dibynnu?**

O dan y Rheolau Rheoleiddiol, mae'n ofynnol i ni gyhoeddi tystysgrifau a thystysgrifau newydd. Felly, y sail gyfreithlon rydym yn dibynnu arni yw cydymffurfiaeth â'n rhwymedigaethau o dan gyfraith y DU.

**A fyddwn yn rhannu eich data personol ag unrhyw un arall?**

Rydym yn argraffu tystysgrifau yn fewnol ac yna'n anfon y tystysgrifau i Ganolfannau i'w dosbarthu.

**YMDRIN Â HONIADAU O GAMYMDDWYN GAN YMGEISWYR**

**Pam y byddwn yn prosesu eich data personol?**

I ystyried ac ymchwilio i honiadau o gamymddwyn gan Ymgeiswyr a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â chamymddwyn honedig.

**Pa ddata personol y byddwn yn eu prosesu?**

Data Cofrestru ynghyd â gwybodaeth am yr honiad o gamymddwyn a wnaed yn eich erbyn chi.

**Beth yw ffynhonnell y data?**

- Ein cofnodion mewnol – mewn perthynas â Data Cofrestru;

- Canolfannau, arholwyr neu gymedrolwyr CBAC a/neu Ymgeiswyr eraill – mewn perthynas â gwybodaeth am yr honiad o gamymddwyn.

**Ar ba sail gyfreithlon y byddwn yn dibynnu?**

O dan y Rheolau Rheoleiddiol, mae'n ofynnol i ni ymchwilio i honiadau o gamymddwyn gan ymgeiswyr a gwneud penderfyniadau yn eu cylch. Felly, ein sail gyfreithlon dros brosesu yw bod prosesu yn angenrheidiol er mwyn ein galluogi i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol o dan gyfraith y DU.

**A fyddwn yn rhannu eich data personol ag unrhyw un arall?**

Byddwn yn hysbysu Canolfannau o'n penderfyniad. Yna, bydd y Ganolfan yn eich hysbysu o ganlyniad ein hymchwiliad.

**YMDRIN Â MATERION DIOGELU YMGEISWYR**

**Pam y byddwn yn prosesu eich data personol?**

Os byddwn yn dod ar draws unrhyw wybodaeth sy'n codi pryderon diogelu wrth farcio asesiadau arholiadau (gan gynnwys sgriptiau, adborth o asesiadau llafar, a gwaith ffilm a chelf), mae'n rhaid i ni roi gwybod i Ganolfannau am y pryderon hynny er mwyn iddynt sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd.

**Pa ddata personol y byddwn yn eu prosesu?**

Data Cofrestru a'r wybodaeth yn eich asesiad arholiad sydd wedi achosi i ni godi pryder diogelu. Gall hyn gynnwys data categori arbennig neu wybodaeth o natur sensitif.

**Beth yw ffynhonnell y data?**

Ein cofnodion mewnol (Data Cofrestru) ac asesiad arholiad.

**Ar ba sail gyfreithlon y byddwn yn dibynnu?**

Y sail gyfreithlon y byddwn yn dibynnu arni yw bod prosesu yn angenrheidiol at ddibenion ein buddiannau dilys (sef, ein gallu i godi ein pryderon gyda'ch Canolfan). Os bydd y wybodaeth yn eich sgript arholiad yn cynnwys unrhyw ddata categori arbennig, byddwn hefyd yn dibynnu ar amod yn Neddf Diogelu Data 2018 sy'n caniatáu defnyddio data personol categori arbennig mewn cysylltiad â diogelu plant neu oedolion sy'n agored i niwed.

**A fyddwn yn rhannu eich data personol ag unrhyw un arall?**

Fel y nodir uchod, byddwn yn hysbysu Canolfannau o unrhyw bryderon diogelu.

**YMDRIN AG APELIADAU**

**Pam y byddwn yn prosesu data personol?**

Er mwyn gallu adolygu cywirdeb marcio asesiadau allanol neu gymedroli Asesiadau sy'n cael eu Marcio gan Ganolfannau er mwyn sicrhau bod gradd briodol ar gyfer y cymhwyster, sy'n adlewyrchu safon y gwaith a gyflwynwyd, yn cael ei dyfarnu i chi. Bydd angen hefyd i ni fonitro'r adolygiadau a gynhelir gan ein Penodedigion er mwyn sicrhau bod penderfyniadau cyson yn cael eu gwneud a bod ein cynlluniau marcio a'n canllawiau yn cael eu dilyn.

**Pa ddata personol y byddwn yn eu prosesu?**

- Data Cofrestru
- Eich sgriptiau arholiad ac, mewn perthynas â rhai cymwysterau, recordiadau o asesiadau llafar neu fyw
- Asesiadau sy'n cael eu Marcio gan Ganolfannau
- Marciau a ddyfarnwyd i ymgeiswyr gan Benodedigion a Chanolfannau.

**Beth yw ffynhonnell y data?**

- Ein cofnodion mewnol – bydd CBAC eisoes yn dal Data Cofrestru;
- Penodedigion a Chanolfannau – marciau a ddyfarnwyd i chi
- Canolfannau – sgriptiau arholiad, recordiadau ac Asesiadau sy'n cael eu Marcio gan Ganolfannau.

**Ar ba sail gyfreithlon y byddwn yn dibynnu?**

O dan y Rheolau Rheoleiddiol, mae'n ofynnol i ni wneud y canlynol:

- Darparu gwasanaeth apeliadau i ddysgwyr a chanolfannau ar gyfer sgriptiau arholiad, asesiadau allanol eraill, ac Asesiadau sy'n cael eu Marcio gan Ganolfannau
- Adolygu ein prosesau marcio a chymedroli er mwyn sicrhau eu bod wedi cael eu rhoi ar waith yn gywir ac yn briodol
- Cywiro unrhyw gamgymeriadau marcio neu gamgymeriadau gweinyddol a welwyd yn ystod yr adolygiad a'r broses apelio

Y seiliau cyfreithlon y byddwn yn dibynnu arnynt yw bod prosesu yn angenrheidiol er mwyn i ni gyflawni ein rhwymedigaethau o dan gyfraith y DU a bod prosesu yn angenrheidiol er mwyn i ni gyflawni tasg er budd y cyhoedd.

**A fyddwn yn rhannu data personol ag unrhyw un arall?**

Byddwn yn trefnu i sgriptiau arholiad ac asesiadau allanol eraill gael eu hadolygu gan Benodedigion. Byddwn hefyd yn trefnu i Uwch Benodedigion fonitro'r broses o adolygu

sgriptiau arholiad ac asesiadau allanol eraill. Byddwn hefyd yn trefnu i Asesiadau sy'n cael eu Marcio gan Ganolfannau gael eu hadolygu gan Benodedigion. Penodir Penodedigion gan CBAC o dan gontract a byddant yn prosesu data personol yn rhinwedd eu swydd fel ein proseswyr.

Caiff y mwyafrif o'r adolygiadau o farcio a chymedroli a monitro gwaith o'r fath gan Benodedigion eu cynnal drwy lwyfan ar-lein diogelu CBAC.

O dan y Rheolau Rheoleiddio, mae'n ofynnol i ni rannu manylion yr adolygiadau o farcio a chymedroli â'r Rheoleiddwyr. Ein sail gyfreithlon dros wneud hynny fydd cydymffurfiaeth â'n rhwymedigaethau cyfreithiol o dan gyfraith y DU.

**DARPARU GWYBODAETH I DRYDYDD PARTÏON**

**Pam y byddwn yn prosesu eich data personol?**

I ymateb i geisiadau am wybodaeth a wneir gan sefydliadau eraill (er enghraifft, cyflogwyr, prifysgolion, yr heddlu neu'r llysoedd).

**Pa ddata personol y byddwn yn eu prosesu?**

Weithiau, bydd cyflogwyr a phrifysgolion yn cysyllltu â ni er mwyn cadarnhau a ydych wedi ennill cymhwyster penodol (er enghraifft, fel rhan o ymchwiliad). Yn y sefyllfa hon, byddwn fel arfer yn edrych ar ein cofnodion mewnol ac yn rhoi ateb cadarnhaol neu negyddol mewn ymateb i'r ymholiad.

O ran ymchwiliadau'r heddlu neu wybodaeth y mae'r llysoedd yn gofyn amdani, bydd y data personol a brosesir gennym yn dibynnu ar natur yr ymchwiliad.

**Beth yw ffynhonnell y data?**

Ein cofnodion mewnol.

**Ar ba sail gyfreithlon y byddwn yn dibynnu?**

O ran gwybodaeth y mae cyflogwyr neu brifysgolion yn gofyn amdani, neu ymholiadau tebyg eraill, y sail gyfreithlon y byddwn yn dibynnu arni yw bod prosesu eich data personol yn angenrheidiol at ddibenion buddiannau dilys y sefydliad dan sylw (er enghraifft, i'w helpu gyda'i ymchwiliadau dilys).

Os byddwn yn cael cais am wybodaeth gan yr heddlu, unwaith eto, y sail gyfreithlon y byddwn yn dibynnu arni fel arfer yw bod prosesu eich data personol yn angenrheidiol at ddibenion buddiannau dilys yr heddlu (er enghraifft, i'w helpu gyda'i ymchwiliadau).

Os byddwn yn cael cais am wybodaeth gan y llysoedd, y sail gyfreithlon y byddwn yn dibynnu arni fel arfer yw bod darparu'r wybodaeth yn angenrheidiol o dan gyfraith y DU.

**A fyddwn yn rhannu eich data personol ag unrhyw un arall?**

Na fyddwn.

## PARATOI ADRODDIADAU AC YSTADEGAU

### Pam y byddwn yn prosesu eich data personol?

Fel darparwr cymwysterau wedi'i reoleiddio, mae'n ofynnol i ni baratoi adroddiadau ac ystadegau ynglŷn â nifer o faterion gwahanol. Gall adroddiadau ac ystadegau o'r fath fod yn ofynnol:

- At ein dibenion rheoli mewnol;
- Ymchwil mewnol ac allanol;
- Er mwyn llunio rhagolygon, rhagfynegiadau ac ar gyfer ymarferion cymedroli;
- Er mwyn i ni allu cyflwyno adroddiadau i'r Rheoleiddwyr;
- At ddiben rhannu gwybodaeth â chyrff dyfarnu eraill yn unol â'r Rheolau Rheoleiddiol;
- Er mwyn cyflwyno adroddiadau i gyrff y llywodraeth.

### Pa ddata personol y byddwn yn eu prosesu?

Byddwn yn defnyddio amrywiaeth eang o ddata personol i baratoi'r adroddiadau a'r ystadegau, gan gynnwys Data Cofrestru, gwybodaeth sy'n ymwneud â marciau a graddau a ddyfernir. Fodd bynnag, yn gyffredinol, ni fydd yr adroddiadau na'r ystadegau a baratoir yn cynnwys unrhyw ddata personol amdanoch chi (h.y. bydd y data yn cael eu cyfuno er mwyn eu darparu ar sail ddienw). Pan fydd angen i ni rannu eich data personol â sefydliadau eraill, rydym wedi cynnwys gwybodaeth benodol am y sefyllfa honno yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

### Beth yw ffynhonnell y data?

Ein cofnodion mewnol.

### Ar ba sail gyfreithlon y byddwn yn dibynnu?

Fel arfer, bydd y gofyniad i baratoi adroddiadau ac ystadegau yn ofyniad o dan y Rheolau Rheoleiddiol. Felly, y sail gyfreithlon y byddwn yn dibynnu arni yw bod prosesu eich data personol yn angenrheidiol i'n galluogi i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol o dan gyfraith y DU.

Fodd bynnag, weithiau, y sail gyfreithlon y byddwn yn dibynnu arni yw bod prosesu eich data personol yn angenrheidiol er mwyn i ni gyflawni tasg er budd y cyhoedd. Y dasg er budd y cyhoedd dan sylw fydd cyflwyno adroddiadau ac ystadegau i gyrff y llywodraeth yn unol â chyfraith addysg y DU.

### A fyddwn yn rhannu eich data personol ag unrhyw un arall?

O dan amgylchiadau penodol, bydd yn ofynnol i ni rannu'r adroddiadau a'r ystadegau a baratoir gennym â'r Rheoleiddwyr a chyrff eraill y llywodraeth. Pan fyddwn yn gwneud hynny, y sail gyfreithlon y byddwn yn dibynnu arni yw bod prosesu yn angenrheidiol er mwyn ein galluogi i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan gyfraith y DU (er enghraifft, o dan y Rheolau Rheoleiddiol).

**A FYDDWN YN TROSGLWYDDO DATA PERSONOL YMGEISWYR Y TU ALLAN I'R DU?**

Mae'r rhan fwyaf o ddata personol ymgeiswyr a brosesir gan CBAC naill ai'n cael ei storio ar ein gweinyddion mewnol neu ar systemau neu weinyddion darparwyr gwasanaethau trydydd parti yn y DU neu'r UE.

Pan fyddwn yn storio data personol yn yr UE, byddwn naill ai'n dibynnu ar y trefniadau digonolrwydd sydd ar waith rhwng y DU a'r UE (sy'n caniatáu i ddata personol lifo'n ddirwystr rhwng y DU a'r UE, neu, os bydd trefniadau digonolrwydd o'r fath yn peidio â bod yn gymwys ar unrhyw adeg, y trefniant o'r enw 'cymalau contractiol safonol'.

Os bydd angen i CBAC drosglwyddo eich data personol y tu allan i'r UE mewn perthynas ag unrhyw weithgarwch prosesu, byddwn yn dwyn hyn i'ch sylw yn benodol (gan gynnwys sut y byddwn yn sicrhau bod eich data personol yn cael eu diogelu).

Un sefyllfa lle y gall eich data personol gael eu trosglwyddo y tu allan i'r UE yw os ydych wedi cael eich cofrestru ar gyfer cymhwyster gan Ganolfan sydd wedi'i lleoli y tu allan i'r UE, a hynny am y bydd y trefniadau y bydd angen i ni eu gwneud gyda'ch Canolfan er mwyn i chi sefyll arholiadau a/neu gymryd rhan mewn asesiadau allanol yn golygu y bydd angen i ni anfon eich data personol y tu allan i'r UE (h.y. i'r Ganolfan dan sylw). Yn y sefyllfa hon, byddwn naill ai'n dibynnu ar benderfyniad digonolrwydd neu gymalau contractiol safonol i sicrhau bod eich data personol yn cael eu diogelu'n ddigonol.

**AM FAINT O AMSER Y BYDDWN YN CADW DATA PERSONOL YMGEISWYR?**

Er mwyn cydymffurfio â'r Rheolau Rheoleiddiol, fel arfer, byddwn yn storio data personol Ymgeiswyr am gyfnod amhenodol, a hynny am fod data yn y Ffurflenni Rheoleiddiol yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol.

Nodwn isod fanylion am y sefyllfaoedd lle y byddwn yn dal eich data personol am gyfnod gwahanol os na chawsant eu cynnwys mewn Ffurflen Reoleiddiol:

- Mewn perthynas â cheisiadau am addasiadau rhesymol a threfniadau mynediad, bydd data personol yn cael eu storio ar y porth ar-lein am gyfnod o 3 blynedd a bydd yn hygyrch i CBAC drwy gydol y cyfnod hwn. Ar ôl 3 blynedd, bydd y data yn cael eu harchifo gan Pearson am gyfnod amhenodol.

- Bydd data copi caled sy'n ymwneud â cheisiadau am ystyriaeth arbennig yn cael eu storio nes bod y dyddiad cau ar gyfer apelio wedi dod i ben mewn perthynas â'r gyfres arholiadau dan sylw. Bydd gwybodaeth sy'n cael ei storio ar lwyfan ystyriaeth arbennig CBAC yn cael ei chadw am 3 blynedd.

- Er ein bod yn cadw gwybodaeth ynglŷn â honiadau o gamymddwyn gan ymgeiswyr am gyfnod o 7 mlynedd, caiff cofnod o unrhyw gosb a roddir i ymgeisydd am gamymddwyn ei gadw am gyfnod amhenodol.

## RHAN 3 – GWYBODAETH AM BREIFATRWYDD I BENODEDIGION

### TROSOLWG

Mae'r term Penodai yn derm cyffredinol a ddefnyddir gan CBAC i ddisgrifio nifer o rolau gwahanol y mae unigolion yn ymgymryd â nhw ar ran CBAC fel rhan o'r broses arholi ac asesu. Er enghraifft, arholwyr, uwch arholwyr a chymedrolwyr, a'u rôl i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cymwysterau.

Mae pob un o Benodedigion CBAC yn cael eu penodi'n gontractwyr annibynnol o dan Delerau Penodi safonol. Bydd y Llythyr Penodi yn nodi dyletswyddau penodol Penodedigion, ac mae'r Telerau Penodi yn nodi rhwymedigaethau Penodedigion mewn perthynas â diogelu data.

Mae'r rhan hon o'n hysbysiad preifatrwydd yn nodi gwybodaeth i Benodedigion ynglŷn â'r ffordd y mae CBAC yn defnyddio eu data personol.

### PAM Y BYDDWN YN PROSESU EICH DATA PERSONOL?

Mae angen i ni ddefnyddio eich data personol at y dibenion canlynol:

- Ymrwymo i gontract â chi a gweinyddu eich penodiad;
- Cadw cofnod o'ch hyfforddiant;
- Monitro ac asesu eich perfformiad (gan gynnwys unrhyw honiadau o gamymddwyn a gyflwynir i'n tîm Camymddwyn);
- Er mwyn i ni allu cysylltu â chi os bydd argyfwng;
- Hwyluso ymweliadau â Chanolfannau os bydd eu hangen;
- Paratoi adroddiadau i'r Rheoleiddwyr;
- Monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth;
- Er mwyn i ni allu cysylltu â chi ynglŷn â chyfleoedd newydd i weithio gyda CBAC;
- Gwneud trefniadau i chi fynd i ddigwyddiadau hyfforddi a chynadleddau.

### PA DDATA PERSONOL Y BYDDWN YN EU DEFNYDDIO?

Byddwn yn defnyddio'r data personol canlynol:

- Eich enw, cyfeiriad a manylion cyswllt (h.y. eich cyfeiriad e-bost a'ch rhifau ffôn);
- Eich dyddiad geni;
- Eich rhywedd;
- Rhif cofrestru eich car;
- Eich manylion cyswllt mewn argyfwng;

- Manylion ynglŷn â'ch cofnod cyflogaeth, eich cymwysterau a'ch profiad;
- Geirdaon;
- Manylion unrhyw wrthdaro buddiannau;
- Eich rhif Yswiriant Gwladol a gwybodaeth am dreth a thaliadau cyflog;
- Eich manylion banc;
- Eich cofnod hyfforddiant;
- Cofnodion perfformiad;
- Achrediad y Bathodyn Glas a gofynion o ran mynediad;
- Manylion am unrhyw ofynion deietegol.

**BETH YW FFYNHONNELL Y DATA?**

Byddwn yn cael y rhan fwyaf o'ch data personol yn uniongyrchol gennych chi, naill ai pan fyddwch yn gwneud cais am rôl fel Penodai neu yn ystod eich penodiad.

Efallai y bydd rhai elfennau o ddata personol yn cael eu darparu gan drydydd parti i ni, er enghraifft geirdaon a roddir gan eich cyflogwr.

**AR BA SAIL GYFREITHLON Y BYDDWN YN DIBYNNU?**

Byddwn yn dibynnu ar sawl sail gyfreithlon wahanol i brosesu eich data personol:

- Mewn perthynas â'ch penodiad a gweinyddu eich penodiad, cadw cofnod o'ch hyfforddiant a monitro ac asesu eich perfformiad, byddwn yn dibynnu ar y sail gyfreithlon bod prosesu eich data personol yn angenrheidiol er mwyn cyflawni contract rhyngom.

- Mewn perthynas â'ch manylion cyswllt mewn argyfwng a manylion ynglŷn â'ch gofynion deietegol, byddwn yn dibynnu ar y sail gyfreithlon bod prosesu eich data personol yn angenrheidiol at ddibenion ein buddiannau dilys (sef, fel y gallwn sicrhau eich bod yn ddiogel).

- Mewn perthynas â'r defnydd o'ch data personol er mwyn i ni allu cysylltu â chi ynglŷn â chyfleoedd newydd â CBAC, byddwn yn dibynnu ar y sail gyfreithlon bod prosesu eich data personol yn angenrheidiol at ddibenion ein buddiannau dilys (sef, fel y gallwn eich hysbysu am rolau Penodedigion posibl).

- Mewn perthynas â pharatoi adroddiadau i'r Rheoleiddwyr, byddwn yn dibynnu ar y sail gyfreithlon bod defnyddio eich data personol yn angenrheidiol er mwyn ein galluogi i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol o dan gyfraith y DU (sef, o dan y Rheolau Rheoleiddiol). Ni chaiff unrhyw ddata personol amdanoch chi eu cynnwys mewn unrhyw adroddiadau o'r fath (a fydd ond yn cynnwys data wedi'u cyfuno ynglŷn â Phenodedigion).

- Mewn perthynas ag unrhyw ddata categori arbennig y byddwn yn eu prosesu amdanoch chi (er enghraifft, gwybodaeth am unrhyw gyflyrau meddygol sydd gennych) byddwn yn dibynnu ar y sail gyfreithlon bod prosesu yn angenrheidiol

at ddibenion ein buddiannau dilys a bod prosesu yn angenrheidiol er mwyn ein galluogi i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan gyfraith y DU.

- Mewn perthynas ag unrhyw ddata personol a gesglir gennym at ddibenion monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth, y sail gyfreithlon y byddwn yn dibynnu arni yw bod prosesu yn angenrheidiol er mwyn ein galluogi i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol ac am resymau budd cyhoeddus sylweddol (sef, at ddibenion nodi neu adolygu bodolaeth neu absenoldeb cyfle cyfartal neu driniaeth gyfartal gyda'r nod o'n galluogi i hyrwyddo neu gynnal cydraddoldeb o'r fath).

**A FYDDWN YN RHANNU EICH DATA PERSONOL AG UNRHYW UN ARALL?**

Weithiau, bydd angen i ni rannu eich gwybodaeth bersonol ag eraill. Mae'r adran hon yn nodi manylion ynghylch gyda phwy y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol a pham. Mae hefyd yn dweud wrthych am ein sail gyfreithlon dros wneud hynny a'r camau y byddwn yn eu cymryd i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol.

**Eich cyflogwr**

Byddwn yn rhannu dyddiadau eich penodiad â'ch cyflogwr er mwyn ei gwneud yn bosibl i daliad rhyddhau athro gael ei dalu. Ein sail gyfreithlon dros wneud hynny fydd bod rhannu eich data personol yn angenrheidiol at ddibenion ein buddiannau dilys (sef, fel y gallwn dalu taliad rhyddhau athro).

**Canolfannau Arholiadau**

Byddwn yn rhannu eich enw a'ch cyfeiriad â chanolfannau arholiadau er mwyn:

- Gwneud trefniadau i chi ymweliad â chanolfannau arholiadau i gynnal arholiadau;

- Ei gwneud yn bosibl i ganolfannau arholiadau anfon sgriptiau arholiad a recordiadau atoch.

Ein sail gyfreithlon dros wneud hynny yw bod rhannu eich data personol yn angenrheidiol er mwyn cyflawni contract rhyngom. Byddwn yn diogelu eich data personol drwy sicrhau eu bod yn cael eu rhannu â chanolfannau arholi drwy borth gwe diogel.

**DRS a BTL**

Mae ein llwyfannau marcio ar-lein a gwasanaethau cysylltiedig yn cael eu darparu gan ddarparwyr gwasanaethau trydydd parti (DRS a BTL ar hyn o bryd). Bydd DRS a BTL yn gweithredu fel proseswyr CBAC a byddant yn cael mynediad i'ch enw, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn a manylion unrhyw wrthdaro buddiannau sydd gennych er mwyn darparu gwasanaethau i ni mewn cysylltiad â'r llwyfannau marcio. Byddwn yn diogelu eich data personol drwy eu trosglwyddo'n ddiogel i DRS a BTL o dan Brotocolau Trosglwyddo Ffeiliau.

**Penodedigion Eraill**

Byddwn yn rhoi eich enw a'ch manylion cyswllt i Benodedigion eraill sydd wedi eu penodi'n arweinwyr tîm neu'n uwch arholwyr er mwyn iddynt allu goruchwylio eich gwaith a rhoi cefnogaeth i chi. Ein sail gyfreithlon dros wneud hynny yw bod rhannu

eich data personol yn angenrheidiol er mwyn cyflawni contract rhyngom. Rydym yn diogelu eich data personol drwy sicrhau mai dim ond drwy ein Porth Rheoli Penodedigion, a ddiogelir â chyfrinair, y bydd modd cael mynediad i'ch data personol.

**Cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau cyfreithiol**

Weithiau, efallai y bydd yn ofynnol i ni ddatgelu eich data personol i drydydd partïon, megis y llysoedd, CThEF neu'r heddlu. Os bydd yn ofynnol i ni wneud hynny, byddwn fel arfer yn gweithredu'n unol â rhwymedigaeth gyfreithiol.

**Cyngor proffesiynol a gweithrediadau cyfreithiol**

Efallai y bydd angen i ni ddatgelu eich data personol i'n cynghorwyr proffesiynol (er enghraifft, ein cyfreithwyr a'n cyfrifwyr) mewn cysylltiad â chael cyngor proffesiynol ganddynt a/neu gadarnhau neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol. Pan fyddwn yn gwneud hynny, y sail gyfreithlon y byddwn yn dibynnu arni fydd ein buddiannau dilys. Efallai y byddwn hefyd yn dibynnu ar y ffaith bod datgeliad yn angenrheidiol er mwyn cadarnhau, arfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol.

**AM FAINT O AMSER Y BYDDWN YN CADW EICH DATA PERSONOL?**

Gan fod arholiadau ac asesiadau CBAC yn digwydd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn academaidd, rydym yn cadw eich data personol tra byddwch yn cyflawni rôl benodol fel un o Benodedigion CBAC ac yn barhaus. Os byddwch yn peidio â gweithredu fel un o Benodedigion CBAC ar unrhyw adeg, dim ond y cyfryw ddata personol ag sy'n angenrheidiol ar gyfer ein cofnodion ac er mwyn ein galluogi i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol y byddwn yn eu cadw.

**A FYDDWN YN TROSGLWYDDO EICH DATA PERSONOL Y TU ALLAN I'R DU?**

Mae rhai o'n gweinyddion a'n systemau TG yn cael eu gwe-letya yn yr UE. Pan ddigwydd hyn, byddwn yn dibynnu ar benderfyniadau digonolrwydd rhwng y DU a'r UE i sicrhau bod eich data personol yn cael eu diogelu. Os bydd unrhyw benderfyniadau digonolrwydd o'r fath yn peidio â bod yn gymwys, byddwn yn dibynnu ar gymalau contractiol safonol yn lle hynny.

Un sefyllfa lle y gall eich data personol gael eu trosglwyddo y tu allan i'r UE yw os ydych wedi cael eich cofrestru ar gyfer cymhwyster gan Ganolfan sydd wedi'i lleoli y tu allan i'r UE, a hynny am y bydd y trefniadau y bydd angen i ni eu gwneud gyda'ch Canolfan er mwyn i chi sefyll arholiadau a/neu gymryd rhan mewn asesiadau allanol yn golygu y bydd angen i ni anfon eich data personol y tu allan i'r UE (h.y. i'r Ganolfan dan sylw). Yn y sefyllfa hon, byddwn naill ai'n dibynnu ar benderfyniad digonolrwydd neu gymalau contractiol safonol i sicrhau bod eich data personol yn cael eu diogelu'n ddigonol.

## RHAN 4 – GWYBODAETH AM BREIFATRWYDD I ATHRAWON AC AELODAU ERAILL O STAFF YSGOL

### TROSOLWG

Cyfeirir y rhan hon o'n hysbysiad preifatrwydd at staff sy'n gweithio i ysgolion a chanolfannau sy'n cynnig cymwysterau CBAC. Mae hyn yn cynnwys athrawon, a gall fod yn gymwys i aelodau o'r staff nad ydynt yn addysgu, megis technegwyr TG, swyddog arholiadau a staff cefnogi arall fel y bo'n briodol.

### PAM Y BYDDWN YN PROSESU EICH DATA PERSONOL?

Byddwn yn prosesu eich data personol at y dibenion canlynol:

- Mewn cysylltiad â chymedroli asesiadau mewn Canolfannau (gan gynnwys rhestrau dosbarthu ar gyfer cylchlythyrau a chytundeb canolfannau i rannu gwybodaeth â chanolfannau eraill drwy fapiau canolfannau CBAC);
- Rhoi hyfforddiant i athrawon ac ymgysylltu ag athrawon, gan gynnwys hyfforddiant DPP, cyfarfodydd rhwydweithiau a grwpiau ffocws;
- Darparu cyhoeddiadau CBAC a gwybodaeth arall i chi;
- Ymdrin â honiadau o gamymddwyn (bydd hyn yn cynnwys ymchwilio i'r honiad perthnasol a gwneud penderfyniad ynghylch a fu unrhyw gamymddwyn);
- Ymdrin ag ymholiadau a chwynion.

Nodir gwybodaeth berthnasol am breifatrwydd sy'n ymwneud â phrosesu eich data personol gennym mewn cysylltiad â hyfforddiant DPP, darparu cyhoeddiadau a gwybodaeth arall ac ymdrin ag ymholiadau a chwynion mewn rhan arall o'r hysbysiad preifatrwydd hwn. Dilynwch y ddolen i'r adran berthnasol o'n hysbysiad preifatrwydd a nodir yn y Cyflwyniad i'r hysbysiad preifatrwydd hwn.

### PA DDATA PERSONOL Y BYDDWN YN EU PROSESU?

- Mewn perthynas â chymedroli asesiadau mewn Canolfannau, byddwn yn prosesu eich enw a manylion eich swydd a'r Ganolfan lle rydych yn gweithio;
- Mewn perthynas â honiadau o gamymddwyn, byddwn yn prosesu eich enw, manylion eich swydd a'r Ganolfan lle rydych yn gweithio ac unrhyw ddata personol amdanoch chi sy'n berthnasol i'r honiad dan sylw.

### BETH YW FFYNHONNELL Y DATA?

- Mewn perthynas â chymedroli asesiadau mewn Canolfannau, bydd y Ganolfan lle rydych yn gweithio yn darparu eich data personol i ni;
- Mewn perthynas â honiadau o gamymddwyn, bydd ffynhonell rhai elfennau o'r data yn dibynnu ar bwy a wnaeth yr honiad (er enghraifft, efallai mai Penodedigion fydd yn darparu gwybodaeth i ni). Rydym hefyd yn debygol o gael elfennau o ddata personol yn uniongyrchol gennych chi.

## BETH YW EIN SAIL GYFREITHLON DROS BROSESU?

Mewn perthynas â chymedroli asesiadau mewn Canolfannau ac ymdrin â honiadau o gamymddwyn, y sail gyfreithlon y byddwn yn dibynnu arni yw bod prosesu yn angenrheidiol er mwyn ein galluogi i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan y Rheolau Rheoleiddiol.

## A FYDDWN YN RHANNU EICH DATA PERSONOL AG UNRHYW UN ARALL?

Er mwyn ymchwilio i honiad o gamymddwyn a wnaed yn eich erbyn, efallai y bydd angen i ni rannu eich data personol ag unigolion sy'n ymwneud â'r honiad. Fodd bynnag, dim ond y cyfryw ddata ag sy'n gwbl angenrheidiol i'n galluogi i ymchwilio'n briodol i'r honiad a wnaed y byddwn yn eu rhannu. Byddwn hefyd yn hysbysu eich Canolfan o ganlyniad ein hymchwiliadau.

## AM FAINT O AMSER Y BYDDWN YN CADW EICH DATA PERSONOL?

Mae'r archif o ddyfarniadau asesiadau mewn Canolfannau yn cael ei chynnal am ddwy flynedd ar ôl oes y fanyleb. Mae hyn yn golygu bod detholiad o sgriptiau ac asesiadau mewn Canolfannau wedi'u hanonymeiddio yn cael ei gadw ar bob un o'r ffiniau graddau o bob cyfres arholiadau. Caiff yr holl asesiadau mewn Canolfannau eu hanfon yn ôl i Ganolfannau, a chaiff asesiadau mewn Canolfannau a gyflwynir yn electronig eu dileu yn unol â'r polisi ynglŷn â chadw sgriptiau.

Er ein bod yn cadw gwybodaeth am honiadau o gamymddwyn am gyfnod o 7 mlynedd, caiff cofnod o unrhyw gosb a roddir am gamymddwyn ei gadw am gyfnod amhenodol.

## A FYDDWN YN TROSGLWYDDO EICH DATA PERSONOL Y TU ALLAN I'R DU?

Mae rhai o'n gweinyddion a'n systemau TG yn cael eu gwe-letya yn yr UE. Pan ddigwydd hyn, byddwn yn dibynnu ar benderfyniadau digonolrwydd rhwng y DU a'r UE i sicrhau bod eich data personol yn cael eu diogelu. Os bydd unrhyw benderfyniadau digonolrwydd o'r fath yn peidio â bod yn gymwys, byddwn yn dibynnu ar gymalau contractiol safonol yn lle hynny.

# RHAN 5 – GWYBODAETH AM BREIFATRWYDD I SWYDDOGION ARHOLIADAU A PHENAETHIAID CANOLFANNAU

## TROSOLWG

Cyfeirir y rhan hon o'n hysbysiad preifatrwydd at Swyddogion Arholiadau a Phenaethiaid Canolfannau sy'n ymgysylltu â CBAC fel rhan o'r broses o gymeradwyo'r Ganolfan.

## PAM Y BYDDWN YN PROSESU EICH DATA PERSONOL?

- At ddibenion cofrestru a monitro Canolfannau;
- I hwyluso'r broses o arolygu Canolfan sy'n gwneud cais am gymeradwyaeth am y tro cyntaf neu ar ôl cyfnod o anweithgarwch.

- I ymdrin â honiadau o gamymddwyn (bydd hyn yn cynnwys ymchwilio i'r honiad perthnasol a gwneud penderfyniad ynghylch a fu unrhyw gamymddwyn);

- I ymdrin ag ymholiadau a chwynion.

Nodir gwybodaeth berthnasol am breifatrwydd sy'n ymwneud â phrosesu eich data personol gennym mewn cysylltiad ag ymholiadau a chwynion mewn rhan arall o'r hysbysiad preifatrwydd hwn. Dilynwch y ddolen i'r adran berthnasol o'n hysbysiad preifatrwydd a nodir yn y Cyflwyniad i'r hysbysiad preifatrwydd hwn.

**PA DDATA PERSONOL Y BYDDWN YN EU PROSESU?**

- At ddibenion cofrestru a monitro Canolfannau, byddwn yn prosesu eich enw, eich swydd a'ch cyfeiriad e-bost.

- Mewn perthynas â honiadau o gamymddwyn, byddwn yn prosesu eich enw, manylion eich swydd a'r Ganolfan lle rydych yn gweithio ac unrhyw ddata personol amdanoch chi sy'n berthnasol i'r honiad dan sylw.

**BETH YW FFYNHONNELL Y DATA?**

- At ddibenion cofrestru a monitro Canolfannau, byddwn yn cael y data personol yn uniongyrchol gennych fel rhan o gais cofrestru'r Ganolfan.

- Mewn perthynas â honiadau o gamymddwyn, bydd ffynhonnell rhai elfennau o'r data yn dibynnu ar bwy a wnaeth yr honiad (er enghraifft, efallai mai Penodedigion fydd yn darparu gwybodaeth i ni). Rydym hefyd yn debygol o gael elfennau o ddata personol yn uniongyrchol gennych chi.

**AR BA SAIL GYFREITHLON Y BYDDWN YN DIBYNNU?**

Mewn perthynas â chofrestru a monitro Canolfannau, ac ymdrin â honiadau o gamymddwyn, y sail gyfreithlon y byddwn yn dibynnu arni yw bod prosesu yn angenrheidiol er mwyn ein galluogi i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan y Rheolau Rheoleiddiol.

**A FYDDWN YN RHANNU EICH DATA PERSONOL AG UNRHYW UN ARALL?**

Os bydd Canolfan yn cyflwyno ei chais cyntaf i ni neu os bydd y Ganolfan yn gwneud cais i gofrestru ar ôl cyfnod o anweithgarwch, bydd angen i ni rannu data'r cais â Gwasanaeth Arolygu Canolfannau'r CGC (a weithredir ar ran CGC gan AQA yn Lloegr, CCEA yng Ngogledd Iwerddon a CBAC yng Nghymru).

Byddwn hefyd yn rhannu data'r cais â'r Gofrestr Rhifau Canolfan Cenedlaethol (NCNR) i'w galluogi i ddyrannu Rhif Cofrestru Canolfan.

Caiff data cais eu rhannu drwy'r post.

Ein sail gyfreithlon dros rannu eich data personol mewn perthynas â chofrestru a monitro Canolfannau fydd drwy gytundeb rhannu data rhwng CGC a'i aelodau.

Er mwyn ymchwilio i honiad o gamymddwyn a wnaed yn eich erbyn, efallai y bydd angen i ni rannu eich data personol ag unigolion sy'n ymwneud â'r honiad. Fodd bynnag, dim ond y cyfryw ddata ag sy'n gwbl angenrheidiol i'n galluogi i ymchwilio'n briodol i'r honiad a wnaed y byddwn yn eu rhannu. Byddwn hefyd yn hysbysu eich Canolfan o ganlyniad ein hymchwiliadau.

**AM FAINT O AMSER Y BYDDWN YN CADW EICH DATA PERSONOL?**

O ran cofrestru a monitro Canolfannau, byddwn yn cadw eich data personol cyhyd ag y bydd y Ganolfan wedi'i chofrestru neu nes y cawn ein hysbysu eich bod wedi rhoi'r gorau i fod yn Swyddog Arholiadau neu Bennaeth Canolfan.

O ran honiadau o gamymddwyn, byddwn yn cadw cofnodion o'r ymchwiliad am 7 mlynedd.

**A FYDDWN YN TROSGLWYDDO EICH DATA PERSONOL Y TU ALLAN I'R DU?**

Un sefyllfa lle y gall eich data personol gael eu trosglwyddo y tu allan i'r UE yw os ydych wedi cael eich cofrestru ar gyfer cymhwyster gan Ganolfan sydd wedi'i lleoli y tu allan i'r UE, a hynny am y bydd y trefniadau y bydd angen i ni eu gwneud gyda'ch Canolfan er mwyn i chi sefyll arholiadau a/neu gymryd rhan mewn asesiadau allanol yn golygu y bydd angen i ni anfon eich data personol y tu allan i'r UE (h.y. i'r Ganolfan dan sylw). Yn y sefyllfa hon, byddwn naill ai'n dibynnu ar benderfyniad digonolrwydd neu gymalau contractiol safonol i sicrhau bod eich data personol yn cael eu diogelu'n ddigonol.

## RHAN 6 – GWYBODAETH AM BREIFATRWYDD I UNIGOLION SY'N MYNYCHU DIGWYDDIADAU HYFFORDDI DPP

**TROSOLWG**

Mae CBAC yn cynnal nifer o ddigwyddiadau hyfforddi DPP ar-lein ac wyneb yn wyneb i athrawon. Mae'r rhan hon o'n hysbysiad preifatrwydd yn ymwneud ag unigolion sy'n cofrestru ar gyfer unrhyw un o'n digwyddiadau DPP / Dysgu Proffesiynol.

**PAM Y BYDDWN YN PROSESU EICH DATA PERSONOL?**

Bydd angen i ni ddefnyddio eich data personol i wneud y canlynol:

- Eich cofrestru ar gyfer y digwyddiad;
- Cynnal gwaith gweinyddol mewnol ac allanol sy'n ymwneud â chynnal y digwyddiad (e.e. creu rhestr neu gofrestr o'r rhai sy'n bresennol, hysbysu lleoliadau allanol am ofynion deietegol / mynediad, rhoi cyfarwyddiadau ynglŷn â sut i ymuno â digwyddiadau ar-lein a gynhelir gan ein darparwr gweminarau allanol);
- Anfonebu eich ysgol neu goleg neu gyflogwr arall am y digwyddiad;
- Cael eich adborth am ddigwyddiad lle buoch yn bresennol;
- Os cytunwch i hynny, defnyddio eich adborth a'ch enw i roi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau DPP / Dysgu Proffesiynol yn y dyfodol;

- Os cytunwch i hynny, eich hysbysu am ddigwyddiadau DPP / Dysgu Proffesiynol yn y dyfodol.

**PA DDATA PERSONOL Y BYDDWN YN EU PROSESU?**

- Eich enw;

- Enw eich ysgol, eich coleg neu gyflogwr arall;

- unrhyw ofynion deietegol (h.y. os digwyddiad wyneb yn wyneb yw'r digwyddiad);

- Eich cyfeiriad e-bost (i roi gwybod am fanylion digwyddiadau e.e. lleoliad, amseroedd, deunyddiau, cyfarwyddiadau i ymuno ar-lein);

- Enw enw, cyfeiriad e-bost ac adborth (os cytunwch y gallwn ddefnyddio eich adborth i roi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau hyfforddi DPP yn y dyfodol ac os ydych yn gofyn i ni roi gwybod am ddigwyddiadau hyfforddi DPP / Dysgu Proffesiynol yn y dyfodol).

**BETH YW FFYNHONNELL Y DATA?**

Rydym yn defnyddio system archebu ar-lein er mwyn i unigolion archebu lle mewn digwyddiadau DPP / Dysgu Proffesiynol. Wrth i chi archebu lle, byddwn yn cael manylion eich enw, eich ysgol, eich coleg neu gyflogwr arall ac unrhyw ofynion deietegol drwy'r llwyfan archebu ar-lein.

Rydym yn defnyddio darparwr arolygon ar-lein i gael adborth am ddigwyddiadau DPP / Dysgu Proffesiynol.

**BETH YW EIN SAIL GYFREITHLON DROS BROSESU?**

Yn gyffredinol, ein sail gyfreithlon dros brosesu fydd ein buddiannau dilys (h.y. ein hangen i ddefnyddio eich data personol i'ch cofrestru i gael lle mewn digwyddiad DPP / Dysgu Proffesiynol a chynnal y digwyddiad hwnnw).

Fodd bynnag, byddwn yn dibynnu ar eich cydsyniad ar gyfer y gweithgareddau prosesu canlynol:

- Eich hysbysu am ddigwyddiadau DPP / Dysgu Proffesiynol yn y dyfodol;

- Defnyddio eich enw a'ch adborth i roi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau DPP yn y dyfodol.

Gallwch dynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg drwy gysylltu â ni yn dpp@cbac.co.uk

**A FYDDWN YN RHANNU EICH DATA PERSONOL AG UNRHYW UN ARALL?**

Rydym yn defnyddio llwyfannau ar-lein i wneud y canlynol:

- Cofrestru unigolion ar gyfer digwyddiadau DPP / Dysgu Proffesiynol;

- Cyflwyno digwyddiadau ar-lein;

- Cael adborth gan y rhai a fu'n bresennol mewn digwyddiadau (ond bydd unrhyw adborth yn cael ei roi'n ddienw oni fyddwch yn cytuno fel arall).

Bydd darparwyr llwyfannau o'r fath yn gweithredu fel ein proseswyr a dim ond ar ein rhan ni ac yn unol â'n cyfarwyddiadau y byddant yn defnyddio eich data personol.

**AM FAINT O AMSER Y BYDDWN YN CADW EICH DATA PERSONOL?**

- Byddwn yn cynnwys unrhyw ‘adborth sy'n cynnwys enw’ nes ein bod yn cyhoeddi ein cyfres nesaf o ddigwyddiadau DPP / Dysgu Proffesiynol.

- Byddwn yn cadw manylion pob digwyddiad rydych wedi mynd iddo am gyfnod o bum mlynedd (sy'n cyd-fynd â'r cylch ar gyfer diweddaru cymwysterau CBAC);

- Os byddwch yn rhoi cydsyniad i ni ddefnyddio eich data personol i'ch hysbysu am ddigwyddiadau DPP / Dysgu Proffesiynol yn y dyfodol, byddwn yn cadw eich enw a'ch cyfeiriad e-bost at y diben hwn nes eich bod yn dweud wrthym nad ydynt yn dymuno cael hysbysiadau o'r fath gennym mwyach.

**A FYDDWN YN TROSGLWYDDO EICH DATA PERSONOL Y TU ALLAN I'R DU?**

Mae'r systemau a ddefnyddiwn i gofrestru unigolion ar gyfer digwyddiadau, cynnal digwyddiadau a chael adborth wedi eu gwe-letya yn y DU.

## RHAN 7 – GWYBODAETH AM BREIFATRWYDD I UNIGOLION SY'N TANYSGRIFIO I GYHOEDDIADAU CBAC

**TROSOLWG**

Cyfeirir y rhan hon o'n hysbysiad preifatrwydd at unigolion sy'n gofyn am gael copïau o gyhoeddiadau CBAC a/neu wybodaeth arall.

**PAM Y BYDDWN YN PROSESU EICH DATA PERSONOL?**

Byddwn yn prosesu eich data personol er mwyn i ni allu rhoi copïau o gyhoeddiadau CBAC a/neu wybodaeth arall.

**PA DDATA PERSONOL Y BYDDWN YN EU PROSESU?**

Eich enw a'ch cyfeiriad e-bost (sy'n debygol o fod yn gyfeiriad e-bost gwaith) a manylion eich ysgol, eich coleg, eich cyflogwr neu sefydliad arall rydych yn aelod ohono.

**BETH YW FFYNHONNELL Y DATA?**

Dim ond os ydych wedi gofyn am gael copïau o gyhoeddiadau CBAC a/neu wybodaeth arall (er enghraifft, drwy gofrestru i gael diweddariadau ar un o'n gwefannau neu mewn digwyddiad) y byddwn yn darparu cyhoeddiadau/gwybodaeth arall o'r fath i chi.

**AR BA SAIL GYFREITHLON Y BYDDWN YN DIBYNNU?**

Eich cydsyniad. Os penderfynwch nad ydych am dderbyn cyhoeddiad mwyach, gallwch dynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg drwy gysylltu â ni.

## A FYDDWN YN RHANNU EICH DATA PERSONOL AG UNRHYW UN ARALL?

Nai fyddwn.

## AM FAINT O AMSER Y BYDDWN YN CADW EICH DATA PERSONOL?

Byddwn yn cadw eich data personol nes eich bod yn dweud wrthym nad ydych am gael diweddariadau gennym mwyach.

## A FYDDWN YN TROSGLWYDDO EICH DATA PERSONOL Y TU ALLAN I'R DU?

Mae'n bosibl bod rhai o'n systemau mewnol a/neu ddata yn cael eu gwe-letya gan ddarparwyr gwasanaethau yn yr UE. Pan ddigwydd hyn, byddwn yn dibynnu ar drefniadau digonolrwydd rhwng y DU a'r UE i sicrhau bod eich data personol yn cael eu diogelu. Os bydd y trefniadau digonolrwydd yn peidio â bod yn gymwys, byddwn yn dibynnu ar gymalau contractiol safonol i ddiogelu eich data personol yn lle hynny.

# RHAN 8 – GWYBODAETH AM BREIFATRWYDD I GYFLENWYR A CHONTRACTWYR

## TROSOLWG

Os ydych yn cyflenwi nwyddau neu wasanaethau i CBAC, efallai y bydd angen i CBAC brosesu data personol penodol amdanoch chi neu eich staff mewn cysylltiad â chyflenwad o'r fath.

## PAM Y BYDDWN YN PROSESU EICH DATA PERSONOL?

- I wneud trefniadau gweinyddol mewn cysylltiad â derbyn y nwyddau neu'r gwasanaethau perthnasol;
- I wneud ymholiadau a threfnu taliad;
- I archebu nwyddau a gwasanaethau perthnasol;
- I sefydlu a chynnal cyfrifon cyflenwyr yn ein system ariannol.

## PA DDATA PERSONOL Y BYDDWN YN EU PROSESU?

- Eich enw
- Eich swydd
- Eich cyfeiriad e-bost
- Eich rhif cofrestru TAW
- Manylion eich cyfrif banc.

## BETH YW FFYNHONNELL Y DATA PERSONOL?

Fel arfer, byddwn yn cael y data personol yn uniongyrchol gennych chi.

**AR BA SAIL GYFREITHLON Y BYDDWN YN DIBYNNU?**

Fel arfer, y sail gyfreithlon y byddwn yn dibynnu arni yw bod prosesu eich data personol chi a data personol eich staff yn angenrheidiol at ddibenion ein buddiannau dilys (sef, cael y nwyddau neu'r gwasanaethau dan sylw a thalu amdanynt).

**A FYDDWN YN RHANNU EICH DATA PERSONOL AG UNRHYW UN ARALL?**

Na fyddwn.

**AM FAINT O AMSER Y BYDDWN YN CADW EICH DATA PERSONOL?**

Rydym yn cadw data personol ar ein llyfrau gwerthiannau a phryniannau am 7 mlynedd am resymau sy'n ymwneud â threth. Rydym hefyd yn cadw data personol sy'n ymwneud â'r contract rhyngom am 6 blynedd rhag ofn bod hawliadau contractiol.

**A FYDDWN YN TROSGLWYDDO EICH DATA PERSONOL Y TU ALLAN I'R DU?**

Mae rhai o'n gwasanaethau a/neu ein systemau TG yn cael eu gwe-letya yn yr UE. Pan ddigwydd hyn, byddwn yn dibynnu ar drefniadau digonolrwydd rhwng y DU a'r UE i sicrhau bod eich data personol yn cael eu diogelu. Os bydd unrhyw drefniadau digonolrwydd o'r fath yn peidio â bod yn gymwys, byddwn yn dibynnu ar gymalau contractiol safonol i ddiogelu eich data personol yn lle hynny.

## RHAN 9 – GWYBODAETH AM BREIFATRWYDD I UNIGOLION SY'N GWNEUD CWYN NEU YMHOLIAD

**TROSOLWG**

Cyfeirir y rhan hon o'n hysbysiad preifatrwydd at unigolion sy'n cysylltu â CBAC gydag ymholiad ac unigolion sy'n cyflwyno cwyn i CBAC.

Os ydych yn rhiant i fyfyriwr, byddwn yn tybio bod unrhyw ymholiad neu gŵyn gennych yn cael ei (g)wneud ar ran eich plentyn a phan fyddwn yn cyfeirio at ‘chi’ rydym yn golygu chi a'ch plentyn.

**PAM Y BYDDWN YN PROSESU EICH DATA PERSONOL?**

Bydd angen i ni brosesu eich data personol er mwyn i ni allu ymdrin â'ch ymholiad a/neu ymchwilio i'ch cwyn.

**PA DDATA PERSONOL Y BYDDWN YN EU PROSESU?**

- Eich enw;
- Eich manylion cyswllt;
- Unrhyw ddata personol eraill rydych yn eu darparu wrth gyflwyno eich ymholiad neu gŵyn;
- Unrhyw ddata personol rydym yn eu cael amdanoch chi wrth ymdrin â'ch ymholiad neu gŵyn.

**BETH YW FFYNHONNELL Y DATA?**

Byddwn yn cael y rhan fwyaf o'r data personol yn uniongyrchol gennych chi. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cael data personol amdanoch chi o ffynonellau eraill wrth ymdrin â'ch ymholiad neu gŵyn. Os bydd y gŵyn neu'r ymholiad yn ymwneud â myfyriwr, mae'n bosibl y byddwn hefyd yn defnyddio data personol am y myfyyriwr hwnnw rydym eisoes yn eu dal.

**BETH YW EIN SAIL GYFREITHLON DROS BROSESU?**

Ein sail gyfreithlon dros brosesu yw bod ein defnydd o'ch data personol yn angenrheidiol at ddibenion ein buddiannau dilys (sef, ymdrin â'ch ymholiad neu ymchwilio i'ch cwyn).

**A FYDDWN YN RHANNU EICH DATA PERSONOL AG UNRHYW UN ARALL?**

Na fyddwn, oni bai bod angen i ni wneud hynny er mwyn ymdrin â'ch ymholiad neu gŵyn yn briodol. Os bydd angen i ni rannu eich data personol ag unrhyw un arall, ein sail gyfreithlon dros brosesu fydd ein buddiannau dilys a byddwn yn sicrhau ein bod yn ymdrin â'ch data personol yn ddiogel.

Fodd bynnag, os myfyriwr ydych chi, a'n bod yn cael cwyn neu ymholiad gan eich rhiant neu warcheidwad, byddwn yn tybio bod eich rhiant neu eich gwarcheidwad yn gweithredu ar eich rhan a byddwn yn rhannu canlyniad yr ymholiad neu'r gŵyn gyda'ch rhiant neu warcheidwad.

**AM FAINT O AMSER Y BYDDWN YN CADW EICH DATA PERSONOL?**

O ran cwynion, byddwn yn cadw eich data personol am 7 mlynedd. O ran ymholiadau cyffredinol, byddwn yn cadw eich data personol am 3 blynedd.

**A FYDDWN YN TROSGLWYDDO EICH DATA PERSONOL Y TU ALLAN I'R DU?**

Mae rhai o'n gwasanaethau a/neu ein systemau TG yn cael eu gwe-letya yn yr UE. Pan ddigwydd hyn, byddwn yn dibynnu ar drefniadau digonolrwydd rhwng y DU a'r UE i sicrhau bod eich data personol yn cael eu diogelu. Os bydd unrhyw drefniadau digonolrwydd o'r fath yn peidio â bod yn gymwys, byddwn yn dibynnu ar gymalau contractiol safonol i ddiogelu eich data personol yn lle hynny.

## RHAN 10 – GWYBODAETH AM BREIFATRWYDD I UNIGOLION SY'N YMWELD Â'N SAFLEOEDD

### TROSOLWG

Cyfeirir y rhan hon o'n hysbysiad preifatrwydd at unigolion sy'n ymweld â safleoedd CBAC.

### PAM Y BYDDWN YN PROSESU EICH DATA PERSONOL?

Bydd angen i ni brosesu eich data personol at y dibenion canlynol:

- Cadw cofnodion o ymwelwyr â'n safleoedd at ddibenion gweinyddol, diogelwch ac iechyd a diogelwch;
- Dilysu manylion contractwyr sy'n gweithio ar ein safleoedd;
- Sicrhau diogelwch ein safleoedd a'n rhwydweithiau;
- Cofnodi manylion ynglŷn â damweiniau am resymau iechyd a diogelwch;

Gan fod deunyddiau cyfrinachol sy'n berthnasol i arholiadau ac asesiadau yn cael eu cynhyrchu ar rai o'n safleoedd a'u bod yn hygyrch ar rai o'n safleoedd, efallai y bydd angen i ni hefyd brosesu eich data personol er mwyn i ni allu cadw cofnod o unrhyw achosion posibl o wrthdaro buddiannau sydd gennych (e.e. pan fydd perthynas i ymwelydd wedi cael ei gofrestru ar gyfer un o gymwysterau CBAC). Mae'n bosibl y bydd cyfeiriad MAC ac enw lletywr dyfeisiau sy'n cysylltu â'n rhwydwaith diwifr cyhoeddus, ynghyd ag enwau unrhyw wefannau yr ymwelir â nhw yn cael eu cofnodi at ddibenion monitro diogelwch.

### PA DDATA PERSONOL Y BYDDWN YN EU PROSESU?

Eich enw, manylion cyswllt, manylion eich cwmni, manylion cofrestru eich cerbyd, manylion sy'n ymwneud â thystysgrifau cymhwysedd neu achrediad, unrhyw ddatganiad o wrthdaro buddiannau, delweddau cylch teledu cyfyng, manylion am unrhyw ddamweiniau neu anafiadau ac amseroedd cyrraedd a gadael ein safleoedd.

### BETH YW FFYNHONNELL Y DATA?

Byddwn yn cael y rhan fwyaf o'r data personol y byddwn yn eu prosesu yn uniongyrchol gennych chi pan fyddwch yn ymweld â'n safleoedd. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn casglu data personol o'r ffynonellau canlynol:

- Os ydych yn rhan o ddamwain ar ein safle, mae'n bosibl y byddwn yn casglu data gan unrhyw dystion neu swyddogion cymorth cyntaf;

- Os ydych yn gweithio i gontractwr, mae'n bosibl y byddwn yn cael eich manylion gan eich cyflogwr;

- Delweddau teledu cylch cyfyng, y gellir edrych arnynt os bydd damwain, neu gais gan drydydd parti awdurdodedig megis yr heddlu.

- Unrhyw ddyfeisiau sy'n cysylltu â'n rhwydwaith diwifr

## AR BA SAIL GYFREITHLON Y BYDDWN YN DIBYNNU?

Byddwn yn dibynnu ar sawl sail gyfreithlon wahanol i brosesu eich data personol:

- O ran datganiadau o wrthdaro buddiannau a chofnodi manylion unrhyw ddamweiniau neu anafiadau, byddwn yn dibynnu ar y sail gyfreithlon bod prosesu eich data personol yn angenrheidiol er mwyn i ni gydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan gyfraith y DU (naill ai o dan y Rheolau Rheoleiddiol neu o dan ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch).

- O ran unrhyw ddata personol eraill amdanoch chi, byddwn yn dibynnu ar y sail gyfreithlon bod prosesu yn angenrheidiol at ddibenion ein buddiannau dilys. Y buddiannau dilys hynny yw sicrhau diogelwch ymwelwyr â'n safle a chadw ein safleoedd yn ddiogel.

## A FYDDWN YN RHANNU EICH DATA PERSONOL AG UNRHYW UN ARALL?

Weithiau, bydd angen i ni rannu eich gwybodaeth bersonol ag eraill. Mae'r adran hon yn nodi manylion ynghylch gyda phwy y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol a pham. Mae hefyd yn dweud wrthych am ein sail gyfreithlon dros wneud hynny a'r camau y byddwn yn eu cymryd i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol.

### Cynnal a Chadw'r System Teledu Cylch Cyfyng

Mae gwaith cynnal a chadw ar ein system teledu cylch cyfyng yn cael ei wneud bob blwyddyn gan gontractwr a fydd yn gweithredu fel ein prosesydd. Wrth wneud gwaith cynnal a chadw ar y system teledu cylch cyfyng mae'n bosibl y bydd ein contractwr yn gweld delweddau teledu cylch cyfyng. Fodd bynnag, rydym yn rheoli mynediad at ddelweddau teledu cylch cyfyng yn gaeth a dim ond unigolion awdurdodedig, gan gynnwys gwaith monitro y tu allan i oriau gan gontractwr a fydd yn cael mynediad.

### Cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau cyfreithiol

Weithiau, efallai y bydd angen i ni rannu eich data personol â thrydydd partïon megis y Rheoleiddwyr, HSE, archwilwyr, y llysoedd neu'r heddlu. Os bydd yn ofynnol i ni wneud hynny, byddwn fel arfer yn gweithredu'n unol â rhwymedigaeth gyfreithiol.

### Cyngor proffesiynol a gweithrediadau cyfreithiol

Efallai y bydd angen i ni ddatgelu eich data personol i'n cynghorwyr proffesiynol (er enghraifft, ein cyfreithwyr a'n cyfrifwyr) mewn cysylltiad â chael cyngor proffesiynol ganddynt a/neu gadarnhau neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol. Pan fyddwn yn gwneud hynny, y sail gyfreithlon y byddwn yn dibynnu arni fydd ein buddiannau dilys. Efallai y byddwn hefyd yn dibynnu ar y ffaith bod datgeliad yn angenrheidiol er mwyn cadarnhau, arfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol.

## AM FAINT O AMSER Y BYDDWN YN CADW EICH DATA PERSONOL?

Yn gyffredinol, rydym yn cadw data personol ymwelwyr am 2 fis ar ôl dyddiad eich ymweliad. Fodd bynnag, mewn sefyllfaoedd penodol bydd eich data personol yn cael eu dal am gyfnod gwahanol:

- Mae delweddau teledu cylch cyfyng yn cael eu cadw am 30 diwrnod;

- Mae datganiadau o wrthdaro buddiannau yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol (yn unol â'r Rheolau Rheoleiddiol);
- Mae cofnodion o ddamweiniau ac anafiadau yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol yn unol â rhwymedigaethau cyfreithiol o dan gyfraith Iechyd a Diogelwch ac yn achos hawliadau anaf personol.

### A FYDDWN YN TROSGLWYDDO EICH DATA PERSONOL Y TU ALLAN I'R DU?

Mae rhai o'n gwasanaethau a/neu ein systemau TG yn cael eu gwe-letya yn yr UE. Pan ddigwydd hyn, byddwn yn dibynnu ar drefniadau digonolrwydd rhwng y DU a'r UE i sicrhau bod eich data personol yn cael eu diogelu. Os bydd unrhyw drefniadau digonolrwydd o'r fath yn peidio â bod yn gymwys, byddwn yn dibynnu ar gymalau contractiol safonol i ddiogelu eich data personol yn lle hynny.

## RHAN 11 - GWYBODAETH AM BREIFATRWYDD I YMGEISWYR AM SWYDDI

### TROSOLWG

Cyfeirir y rhan hon o'n hysbysiad preifatrwydd at unigolion sy'n gwneud cais am rolau yn CBAC. Nid oes unrhyw rwymedigaeth statudol na chontractiol arnoch i ddarparu data i CBAC yn ystod y broses recriwtio. Fodd bynnag, os na fyddwch yn darparu'r wybodaeth, efallai na fydd y tîm adnoddau dynol yn gallu prosesu eich cais yn gywir, os o gwbl.

### PAM Y BYDDWN YN PROSESU EICH DATA PERSONOL?

- I gymryd camau yn unol â'ch cais cyn ymrwymo i gontract â chi

### PA DDATA PERSONOL Y BYDDWN YN EU PROSESU?

- Eich enw, eich cyfeiriad a manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriad e-bost a rhifau ffôn
- Manylion eich sgiliau a'ch cymwysterau, gan gynnwys aelodaeth sefydliadau proffesiynol;
- Manylion eich profiad a'ch hanes cyflogaeth;
- Enwau, cyfeiriadau a manylion cyswllt canolwyr, gan gynnwys cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn;
- Gwybodaeth am eich sgiliau Cymraeg;
- Gwybodaeth am eich cydnabyddiaeth gyfredol, gan gynnwys hawl i fuddiannau;
- P'un a oes gennych anabledd y mae angen i'r tîm adnoddau dynol wneud addasiadau rhesymol ar ei gyfer yn ystod y broses recriwtio;
- P'un a oes gennych unrhyw euogfarnau troseddol yr ystyrir nad ydynt wedi darfod o dan y Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr;
- Gwybodaeth am eich hawl i weithio yn y DU;
- Gwybodaeth monitro cyfle cyfartal, gan gynnwys gwybodaeth am eich tarddiad ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, ystod oedran a chrefydd neu gred.

### BETH YW FFYNHONNELL Y DATA?

- Ffurflenni cais a CVs
- Manylion o'ch pasbort neu ddogfennau adnabod eraill
- Data sy'n cael eu casglu drwy gyfweliadau neu fathau eraill o asesu
- Trydydd partïon, megis:
    - Geirdaon a ddarperir gan gyn-gyflogwyr;
    - Gwybodaeth gan ddarparwyr gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd;
    - Gwybodaeth o wiriadau cofnodion troseddol

**AR BA SAIL GYFREITHLON Y BYDDWN YN DIBYNNU?**

Byddwn yn dibynnu ar sawl sail gyfreithlon wahanol i brosesu eich data personol:

Mae angen i CBAC brosesu data er mwyn cymryd camau ar eich cais cyn ymrwymo i gontract â chi. Mae angen iddo brosesu eich data hefyd er mwyn ymrwymo i gontract â chi. Byddwn yn dibynnu ar sawl sail gyfreithlon wahanol i brosesu eich data personol:

- Mewn rhai achosion, mae angen i CBAC brosesu data er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau cyfreithiol. Er enghraifft, mae'n ofynnol iddo gadarnhau bod ymgeisydd llwyddiannus yn gymwys i weithio yn y DU cyn iddo ddechrau ei gyflogaeth.

- Mae gan CBAC fuddiant dilys mewn prosesu data personol yn ystod y broses recriwtio a chadw cofnodion o'r broses. Mae hyn yn cynnwys:

    - Mae prosesu data a roddir gan ymgeiswyr am swyddi yn galluogi'r tîm adnoddau dynol i reoli'r broses recriwtio, asesu a chadarnhau a yw ymgeisydd yn addas ar gyfer swydd a phenderfynu i bwy y dylid cynnig swydd. Gall fod angen i'r tîm adnoddau dynol hefyd brosesu data gan ymgeiswyr am swyddi er mwyn ymateb i hawliadau cyfreithiol a'u herio.

    - Mae'r tîm adnoddau dynol yn prosesu gwybodaeth am iechyd os oes angen iddo wneud addasiadau rhesymol i'r broses recriwtio ar gyfer ymgeiswyr sydd ag anabledd. Mae'n gwneud hyn er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau ac arfer hawliau cyflogaeth penodol.

    - Pan fydd y sefydliad yn prosesu categorïau arbennig eraill o ddata, megis gwybodaeth am darddiad ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, gwneir hyn at ddibenion monitro cyfle cyfartal.

    - Ar gyfer rhai rolau, mae'n ofynnol i CBAC ofyn am wybodaeth am gollfarnau a throseddau. Pan fydd y sefydliad yn gofyn am y wybodaeth hon, mae'n gwneud hynny am fod angen iddo gyflawni ei rwymedigaethau ac arfer hawliau cyflogaeth penodol.

- Os yw eich cais yn aflwyddiannus, gall y tîm adnoddau dynol gadw eich data personol ar ffeil rhag ofn y bydd cyfleoedd cyflogaeth eraill yn codi yn y dyfodol y gallech fod yn addas ar eu cyfer. Bydd y tîm adnoddau dynol yn gofyn am eich caniatâd i gadw eich data at y diben hwn a gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl unrhyw bryd.

## A FYDDWN YN RHANNU EICH DATA PERSONOL AG UNRHYW UN ARALL?

Caiff eich gwybodaeth ei rhannu'n fewnol at ddibenion yr ymarfer recriwtio. Gellir ei rhannu ag aelodau o'r tîm adnoddau dynol, y rheolwr cyflogi a chyfwelwyr sy'n cymryd rhan yn y broses recriwtio.

Ni fydd CBAC yn rhannu eich data â thrydydd partïon, oni fydd eich cais am gyflogaeth yn llwyddiannus a'i fod yn cynnig swydd i chi. Yna, bydd y sefydliad yn rhannu eich data â chyn-gyflogwyr er mwyn cael geirdaon, darparwyr gwiriadau cefndir cyflogaeth i gael y gwiriadau cefndir angenrheidiol a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i gael y gwiriadau cofnodion troseddol angenrheidiol.

## AM FAINT O AMSER Y BYDDWN YN CADW EICH DATA PERSONOL?

Os yw eich cais am swydd yn aflwyddiannus, bydd CBAC yn cadw eich data ar ffeil am 6 mis ar ôl diwedd y broses recriwtio berthnasol. Os byddwch yn caniatáu i CBAC gadw eich data personol ar ffeil, bydd y tîm adnoddau dynol yn cadw eich data ar ffeil am 12 mis arall er mwyn eich ystyried ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw neu pan fyddwch yn tynnu eich caniatâd yn ôl, caiff eich data eu dileu neu eu dinistrio.

Os yw eich cais am gyflogaeth yn llwyddiannus, caiff data personol a gesglir yn ystod y broses recriwtio eu trosglwyddo i'ch ffeil personél a'u cadw yn ystod eich cyflogaeth. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am ba hyd y byddwn yn cadw eich data mewn hysbysiad preifatrwydd newydd.

## A FYDDWN YN TROSGLWYDDO EICH DATA PERSONOL Y TU ALLAN I'R DU?

Na fyddwn.

# RHAN 12 – GWYBODAETH AM BREIFATRWYDD I UNIGOLION SY'N DOD I DDIGWYDDIADAU MARCHNATA CBAC

## TROSOLWG

Cyfeirir y rhan hon o'n hysbysiad preifatrwydd at unigolion sy'n cael gwahoddiad i ddod i ddigwyddiad marchnata gan CBAC/sy'n dod i ddigwyddiad marchnata gan CBAC, megis y Wobr Delwedd Symudol neu'r Gwobrau Arloesedd.

## PAM Y BYDDWN YN PROSESU EICH DATA PERSONOL?

- I'ch gwahodd i'r digwyddiad;
- I ymgymryd â'r broses feirniadu ar gyfer y digwyddiad (os ydych yn cystadlu am un o'r gwobrau yn y digwyddiad);
- I weinyddu'r digwyddiad;
- I gyhoeddi enillwyr a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt.

## PA DDATA PERSONOL Y BYDDWN YN EU PROSESU?

Os ydych yn fyfyriwr, eich enw a'r ysgol neu'r coleg rydych yn ei mynychu neu ei fynychu.

Os ydych yn athro, yn swyddog arholiadau neu'n unigolyn arall sydd wedi cael gwahoddiad, eich enw, eich rôl a'ch cyfeiriad e-bost.

## BETH YW FFYNHONNELL Y DATA?

Bydd y rhan fwyaf o'r data personol a ddefnyddiwn yn cael eu darparu i ni gan ysgol neu goleg y myfyriwr.

Byddwn hefyd yn defnyddio data rhanddeiliaid o'n cronfa ddata o enwau cyswllt.

## AR BA SAIL GYFREITHLON Y BYDDWN YN DIBYNNU?

Y brif sail gyfreithlon y byddwn yn dibynnu arni yw bod prosesu yn angenrheidiol at ddibenion ein buddiannau dilys (sef, er mwyn ein galluogi i drefnu a rhedeg y digwyddiad).

Os ydych yn un o'r enillwyr mewn digwyddiad, byddwn hefyd yn dibynnu ar eich cydsyniad i ffilmio eich buddugoliaeth a defnyddio enw a manylion yr ysgol neu'r coleg rydych yn ei mynychu neu'n ei fynychu er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'ch buddugoliaeth.

Os ydym yn dal eich data yn ein cronfa ddata o enwau cyswllt (e.e. os rhanddeiliad ydych), ein sail gyfreithlon dros brosesu fydd eich cydsyniad hefyd.

Gallwch dynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg drwy gysylltu â ni.

## A FYDDWN YN RHANNU EICH DATA PERSONOL AG UNRHYW UN ARALL?

Os ydych yn un o'r enillwyr a'ch bod wedi rhoi eich cydsyniad i ni, byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i'ch buddugoliaeth ar ein gwefan ac ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

## AM FAINT O AMSER Y BYDDWN YN CADW EICH DATA PERSONOL?

Os ydych wedi ennill gwobr, dim ond ar ôl i fanylion am eich buddugoliaeth gael cyhoeddusrwydd y byddwn yn cadw eich data personol.

Os ydych yn swyddog arholiadau, bydd eich data personol yn cael eu cadw yn ein cofnodion nes y byddwch yn peidio â gweithredu fel swyddog arholiadau.

Os ydych yn un o randdeiliaid CBAC, byddwn yn cadw eich data personol nes eich bod yn gofyn i ni ddileu eich manylion yn ein cofnodion.

## A FYDDWN YN TROSGLWYDDO EICH DATA PERSONOL Y TU ALLAN I'R DU?

Na fyddwn.